# Dyfodol Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf: Ymchwil, Polisi ac Ymarfer yng Nghymru

Prifysgol Abertawe
Dydd Gwener 6 Mawrth 2026

Adroddiad Cynhadledd



# Cynnwys


| Papur | Awdur | Rhif tud. |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | |
| Cyflwyniad i Ddyfodol Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf: Ymchwil, polisi ac ymarfer yng Nghymru | Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe | 3 |
| **Prif anerchiad** | | |
| Ar ôl 50 mlynedd o ymchwil i'r gwasanaethau prawf - ble rydyn ni nawr? | Peter Raynor, Prifysgol Abertawe | 6 |
| **Sgyrsiau sydyn** | | |
| Gwasanaeth Prawf Lleol: Archwilio Ymagweddau Newydd i Gymru | Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe | 15 |
| Technoleg sy'n Seiliedig ar Ymataliad - ap "My Journey" | Gemma Morgan, Prifysgol Abertawe | 20 |
| Meithrin diogelwch a thwf yn y gwasanaeth prawf: Cynllunio nodau gyda phobl ar brawf a goruchwyliaeth sy'n ystyriol o drawma ar gyfer staff | Jason Davies, Prifysgol Abertawe | 25 |
| Ail-ddychmygu Prawf yn y Gymuned: cynllun 'Grand Avenues' | Mike Maguire, Prifysgol De Cymru<br>Sue Thomas, Prifysgol De Cymru<br>Kate Williams, Prifysgol Aberystwyth | 28 |
| Gwaith y Gwasanaeth Prawf yn Iwerddon fel Gwaith Cymdeithasol | Vivian Geiran, Coleg y Drindod Dulyn | 32 |
| **Safbwyntiau o'r maes** | | |
| Safbwynt o'r maes - Myfyrdodau gan Napo Cymru | Rachael Mages, Napo Cymru | 37 |
| Safbwynt o'r maes - Myfyrdodau gan Cymru Ddiogelach | Simon Borja, Cymru Ddiogelach | 39 |
| Y gwasanaeth prawf, partneriaeth leol a chymuned: Myfyrdodau'r prynhawn | Brian Heath ac Ella Rabaiotti | 39 |



**Cydnabyddiaeth:**

Diolch i bawb a gyfrannodd at y symposiwm - wyneb yn wyneb, ar-lein ac at yr adroddiad hwn. Diolch yn enwedig i'r Athro Peter Raynor. Gwnaeth ei gyfraniad sylweddol at ymarfer prawf ar sail tystiolaeth ysbrydoli'r digwyddiad hwn, yn ogystal ag ymchwil ac ymarfer parhaus nifer o bobl eraill yn y maes hwn. Rydym yn ei longyfarch ar ei ymddeoliad ar ôl 50 mlynedd ym Mhrifysgol Abertawe.

# Cyflwyniad

## Cyflwyniad i Ddyfodol Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf: Ymchwil, polisi ac ymarfer yng Nghymru

Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe a Chynullydd Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn dod â chyfraniadau allweddol gan Ddyfodol Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf: Ymchwil, Ymarfer a Pholisi ynghyd. Dyma symposiwm a gynhaliwyd gan y Sefydliad Ymchwil ar gyfer Polisi ac Ymarfer, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe ddydd Gwener 6 Mawrth 2026.

Arweiniodd syniad am ddigwyddiad i nodi ymddeoliad yr Athro Peter Raynor ar ôl 50 mlynedd ym Mhrifysgol Abertawe at achlysur llawer mwy o faint, gan ddod ag amrywiaeth eang o academyddion, llunwyr polisi, ymarferwyr prawf a myfyrwyr ynghyd, wyneb yn wyneb ac ar-lein, er mwyn archwilio gweithio ar sail tystiolaeth ac ymarfer effeithiol y gwasanaeth prawf lleol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y symposiwm yn ystod cyfnod hollbwysig arall ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl ailuno'r gwasanaeth prawf yn dilyn y problemau yn sgîl preifateiddio'r gwasanaeth yn rhannol, mae'r gwasanaeth prawf wedi bod yn ailadeiladu, yn ail-recriwtio ac yn ail-ganolbwyntio. Mae ymatebion i argyfwng y carchardai, drwy'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol (adolygiad 'Gauke') a Deddf Dedfrydu 2026 yn arwain at newidiadau sylweddol pellach a phwyslais o'r newydd ar y gwasanaeth prawf a dedfrydau cymunedol. Felly, mae'n amser pwysig i fyfyrio ar ymchwil ac ymarfer a chyfleoedd i ddylanwadu ar newid, yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru ac yn y DU.

Mae llawer o bobl a ymunodd â'r symposiwm wedi bod â diddordeb yn y cyfleoedd i wella cyfiawnder yng Nghymru - cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol - a allai gael eu cynnig drwy ddatganoli'r gwasanaeth prawf. Rydym wedi archwilio canfyddiadau Comisiwn Thomas, a'r uchelgeisiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â meddylfryd Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf Cymru (WPDG) a gwaith gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru er mwyn datblygu'r mater hwn. Nid adolygu'r dadleuon hynny oedd diben y digwyddiad hwn, ond yn hytrach symud ymlaen drwy drafodaethau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac ymarfer. Edrych ar sut gall y gwasanaeth prawf weithio'n fwy effeithiol ac yn fwy lleol, a sut mae'r pethau hynny'n rhyngweithio, yn enwedig wrth ddefnyddio tystiolaeth. Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, efallai y bydd angen gwasanaeth prawf sydd wedi'i ddatganoli.

Yn ystod yr anerchiad agoriadol, a chan arwain y teyrngedau i Peter, clywsom gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS. Mae Mark, cyn-Brif Weinidog Cymru, yn gyn-

swyddog prawf a gweithiwr cyfiawnder ieuenctid, a bu'n dysgu ym Mhrifysgol Abertawe, lle cwblhaodd ei PhD, dan oruchwyliaeth yr Athro Peter Raynor. Felly roedd hi'n briodol iawn i Mark fyfyrio ar gyfraniadau sylweddol Peter at y byd academaidd a meysydd polisi ac ymarfer. Amlygodd Mark arfer Peter o bwysleisio pwysigrwydd gwneud pethau yn hytrach na'u hysgrifennu'n unig i'w fyfyrwyr, gan eu hannog i ystyried a oedd eu gwaith yn ddefnyddiol i'r bobl roeddent yn ysgrifennu amdanynt. Bu Mark yn myfyrio ar ymchwil Peter sydd wedi dangos bod newid yn bosibl i bobl yn y system cyfiawnder troseddol a gall swyddogion prawf wneud gwelliannau cadarnhaol ym mywydau pobl. Caiff hyn ei gefnogi gan 'linyn euraidd dynoliaeth', polisi sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth, a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn fwy lleol i'r bobl y maen nhw'n effeithio arnynt. Daeth Mark a'i araith i ben drwy ddarllen llythyr gan Gydffederasiwn Prawf Ewrop, a amlygodd y bydd ymchwil a chyfraniadau neilltuol Peter yn gadael gwaddol parhaus yn y gwasanaeth prawf.

Roeddem wrth ein boddau bod Peter wedi traddodi'r prif anerchiad, yn myfyrio ar 50 mlynedd o ymchwil i'r gwasanaeth prawf - gan gynnwys llawer o'r hyn y mae wedi bod yn rhan ohono'n bersonol ers y 1980au. Mae fersiwn wedi'i golygu o'r anerchiad ar gael yn yr adroddiad hwn. Yn benodol, soniodd Peter am ei ymchwil gyda'r Athro Maurice Vanstone a'r Athro Pamela Ugwudike yn Jersey ym maes sgiliau goruchwyliaeth unigol ac effaith bellgyrhaeddol yr ymchwil. Gan roi diweddariad ar yr ymchwil, myfyriodd yn feirniadol ar y bwlch gweithredu rhwng yr hyn rydym yn ei wybod gan ymchwil a'r hyn rydym yn ei wneud wrth ymarfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, pwysleisiodd Peter bwysigrwydd diwylliant o ddysgu, rheolaeth ddibynadwy a chwilfrydedd proffesiynol. Gorffennodd ei anerchiad drwy gyfeirio at ddeg strategaeth ar sail tystiolaeth er mwyn adfywio'r gwasanaeth prawf, gan gynnwys 'gweithio'n lleol', 'adnewyddu cenhadaeth lleihau poblogaeth carchardai y gwasanaeth prawf' a 'gwerthuso popeth'.

Ar ôl anerchiad Peter, cafwyd sgyrsiau sydyn ar ffyrdd o weithio yn y gwasanaeth prawf; o ymagweddau arfer arloesol a ddisgrifiwyd gan yr Athro Jason Davies a Dr Gemma Morgan, i fodelau hyb cymunedol, gan gynnwys cynllun 'Grand Avenues' a rannwyd gan yr Athro Mike Maguire a'r Athro Kate Williams, yn ogystal â minnau. Rhannodd Vivian Geiran y profiad Gwyddelig, gan roi pwyslais ar waith gwasanaeth prawf sydd 'wedi'i wreiddio'n lleol', sy'n 'hyderus yn broffesiynol', sydd 'wedi'i lywio gan gymdeithas' ac sy'n 'canolbwyntio ar y dyfodol'.

Roedd panel y prynhawn yn cynnwys cynrychiolwyr o Napo Cymru a Cymru Ddiogelach, a chafodd ei gadeirio gan Brian Heath MBE, gan sicrhau bod lleisiau yn y maes yn cael eu clywed wrth osod blaenoriaethau pellach ar gyfer ymchwil, polisi ac ymarfer yng Nghymru. Daeth nifer o bwyntiau y mae angen myfyrio arnynt i'r amlwg yn ystod y symposiwm, a dyma ddau ohonynt i orffen:

Yn gyntaf, mae ymagweddau lleol yn cyflwyno llwybrau addawol i ddiwygio'r gwasanaeth prawf yng Nghymru. Drwy arferion arloesol integredig (sydd wedi'u gwerthuso) a phartneriaethau ystyrlon yn y gymuned, mae gan Gymru'r potensial i

greu system brawf fwy ymatebol, gwaraidd ac effeithiol sy'n cefnogi ymataliad drwy berthnasoedd cryfach.

Yn ail, mae cynnwys ymchwilwyr ac ymarferwyr ym maes polisi a newid sefydliadol yn parhau i fod yn hollbwysig. Rhannodd Peter hanner degawd o ymchwil a dysgu'n ymwneud â’r gwasanaeth prawf sy'n parhau i fod yn berthnasol heddiw. Wrth ystyried y newid y mae ymarferwyr (gan gynnwys y rhai hynny yn y gwasanaeth prawf a'r sector gwirfoddol) eisoes wedi'i brofi, mae angen iddynt fod yn rhan ganolog o ddatblygiadau yn y dyfodol.

# Prif anerchiad

## Ar ôl 50 mlynedd o ymchwil i'r gwasanaethau prawf - ble rydyn ni nawr?

Yr Athro Peter Raynor – Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe

Dewisais 50 mlynedd nid yn unig oherwydd fy mod i wedi bod yn y brifysgol hon am 50 mlynedd, ond oherwydd bod yr hanner canrif hwn wedi bod yn gyfnod diddorol iawn ym maes ymchwil i'r gwasanaeth prawf, ac mae'r gwasanaeth prawf wedi wynebu nifer o newidiadau mawr yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddaf yn ceisio esbonio hyn drwy'r cyflwyniad hwn.

*Y gwasanaeth prawf yn y 1970au*

Ymunais â'r gwasanaeth prawf fel hyfforddai yn 1970, felly mae hynny'n fwy na 50 mlynedd. Sut beth oedd bod yn swyddog prawf yn y 1970au? Meddyliwch am wasanaeth prawf heb gyfrifiaduron, ffonau symudol neu lungopiwyr hyd yn oed. Roedd ardal neu gymuned lle roedd pobl yn byw yn cael ei neilltuo i ni. Roedden ni'n goruchwylio pobl yn yr ardal honno a oedd yn cael eu rhoi ar brawf, ac yn ysgrifennu adroddiadau i'r Llys ar gyfer y bobl a oedd yn mynd i helynt yn yr ardal honno. Roedd yr adroddiadau'n cael eu hysgrifennu gan swyddogion prawf cymwysedig a phrofiadol. Yna, dan oruchwyliaeth, byddech chi'n cadw llygad ar yr un bobl y byddech chi'n ysgrifennu adroddiadau amdanynt. Pe bydden nhw'n mynd i'r carchar yn hwyrach, mae'n debygol mai chi fyddai'n gwneud y gwaith ôl-ofal hefyd, a byddech chi'n ymweld â nhw yn y carchar. Roedden ni'n arfer gwneud ymweliadau cartref hefyd. Os na fyddai rhywun yn dod i'w apwyntiad, fydden ni ddim yn cofnodi'n swyddogol ei fod wedi torri amodau ei orchymyn prawf nac yn ceisio ei adalw i'r carchar ar unwaith; bydden ni'n ceisio deall beth oedd wedi mynd o'i le, ac roedd hynny fel arfer yn golygu ymweld â lle'r oedd i fod i fyw, gweld beth oedd y broblem ac a oedd modd adfer y sefyllfa.

Ar y cyfan, roedden ni'n annibynnol ac yn gyfrifol am ein gwaith ein hunain. Daeth arolygydd o'r Swyddfa Gartref i edrych ar ein gwaith a dywedodd y gallem barhau ag ef. Roedd yr ymarfer yn amrywiol iawn o ran ansawdd oherwydd roedd pawb yn dilyn ei drywydd ei hun, ond roedd yr arfer gorau yn eithaf da. Roedden ni'n gweithio'n lleol; ac roedden ni'n cael ein rheoli'n lleol. Roedden ni'n gweithio i bwyllgor prawf, a oedd yn cynnwys ynadon o'r sir, ac un neu ddau berson arall. Roeddwn i'n aelod cyfetholedig o Bwyllgor Prawf Gorllewin Morgannwg am oddeutu 10 mlynedd, ac roedd hynny'n ddiddorol iawn.

Gwnaethon ni gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol wrth i ni orffen ein hyfforddiant fel swyddogion prawf. Roedden ni'n aml yn cael ein hystyried yn rhan o lefel eliît

gwaith cymdeithasol. Dyna'r math o enw da oedd gennym ni. Roedd pawb yn credu mai ni a'r gweithwyr cymdeithasol seiciatrig oedd yn gallu delio â’r bobl heriol.

Dim ond ychydig o fiwrocratiaeth oedd yn y dyddiau hynny. Roeddwn i'n gwneud fy holl waith gweinyddol mewn un prynhawn bob wythnos. Roedd goruchwyliaeth ar gael yn ôl yr angen, o ran trafod achosion ac ati. Ar gyfer atebolrwydd ffurfiol, roedd yn rhaid i mi gyflwyno fy ystadegau i fy uwch-swyddog prawf unwaith y mis. A dyna oedd rheolaeth. Bydd y rhai hynny ohonoch sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf presennol yn meddwl bod hyn yn rhyfeddol. Wrth gwrs, rhan o'r rheswm oedd nad oedd cyfrifiaduron ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw, felly nid oedd yn bosibl gwneud yr holl bethau rydych chi'n gorfod eu gwneud nawr.

Ar y cyfan, roedd goruchwyliaeth yn golygu goruchwylio pobl a oedd wedi cydsynio i gael eu goruchwylio, oherwydd pan wnaed gorchymyn prawf yn y llys, gofynnwyd i'r diffynnydd a oedd yn cytuno â’r gorchymyn. Weithiau fyddai'r diffynnydd ddim yn cytuno. Ar y cyfan, roedden nhw'n cytuno. Roedd hyn yn golygu bod math o gontract a chytundeb a fyddai’n sail i’ch gwaith yn ystod y broses oruchwylio, a oedd yn ddefnyddiol iawn.

Roedd ymweliadau cartref yn beth rheolaidd iawn. Fydden ni ddim yn llunio adroddiad i'r llys heb ymweld â chartref y diffynnydd. Bydden ni'n ymweld yn aml â’r bobl roedden ni'n eu goruchwylio yn eu cartrefi. Nid oedd yr holl ymweliadau a chysylltiadau'n cael eu cynnal yn y swyddfa, sy'n dangos sut mae pethau wedi newid.

Yn 1974, dywedwyd wrthon ni 'nad oedd unrhyw beth yn gweithio'. Cyhoeddodd Robert Martinson, y troseddegwr Americanaidd, ei erthygl enwog yn *The Public Interest.* Dyma a ysgrifennodd - “with few isolated exceptions, the rehabilitative efforts that have been reported so far have had no appreciable effects on recidivism”. Er hyn, nid oedd yn hollol gywir, ac roedd nifer o eithriadau i'r prosiect ymchwil yr oedd yn adrodd amdano. Fodd bynnag, cafodd ei erthygl effaith fawr yn wleidyddol, ac ar syniadaeth am y gwasanaeth prawf ledled y byd Saesneg ei iaith.

Yn y DU, cynhaliwyd yr astudiaeth IMPACT - Intensive Matched Probation and Aftercare Treatment. Gwnaeth yr astudiaeth hon gymharu effeithiau llwythi achosion ysgafn ag effeithiau llwythi achosion trwm. A oedd pobl yn gwneud yn well wrth gael eu goruchwylio gan swyddogion prawf â llwythi achosion llawer ysgafnach? Dyna beth oedd barn y swyddogion prawf. Dyma un o'r rhesymau pam y cynhaliwyd yr astudiaeth gan y Swyddfa Gartref. Ac roedd y canlyniad yn wahanol i'r disgwyliad. Mewn gwirionedd, roedd y bobl a oedd yn cael eu goruchwylio gan swyddogion â llwythi achosion ysgafnach yn gwneud ychydig yn waeth. Nid oedd popeth a wnâi'r swyddogion prawf o angenrheidrwydd yn effeithiol. Roedd rhywfaint o’u gwaith yn effeithiol, roedd rhywfaint yn aneffeithiol, a doedd ddim ymgais yn yr astudiaeth hon i reoli beth oedd yr ymarfer hwn.

Beth oedd barn y Swyddfa Gartref am ganlyniadau'r ymchwil? John Croft oedd Pennaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref (1978) a dywedodd ef wrthym nad yw triniaethau cosbi'n cael unrhyw effaith adsefydlu. Y broblem yw, rydyn ni wedi buddsoddi llawer o arian yn datblygu'r asiantaethau i ddelio â'r bobl hyn. A ddylen ni gael gwared â nhw felly? Neu ydyn nhw'n mynd i ymateb i'r her hon drwy ddatblygu ymagweddau newydd a dulliau newydd? A dyna'r hyn a ddigwyddodd mwy neu lai, yr ymagweddau newydd a'r dulliau newydd.

*Yr ugain mlynedd nesaf: datblygiad y gwasanaeth prawf o'r 1980au i ddiwedd y 1990au a'r tu hwnt*

Rwy'n tueddu i edrych ar ddatblygiad y gwasanaeth prawf ers hynny fel ei fod wedi mynd drwy dri...pedwar cyfnod erbyn hyn. O'r 1980au tan 1993, roedden ni'n deall mai darparu dewisiadau amgen yn lle'r ddalfa a lleihau'r angen am ddedfrydu i'r carchar oedd y brif dasg. Roedd yr awdurdodau wedi cael eu hargyhoeddi nad oedd modd newid pobl, ond gallem newid y ffordd rydyn ni'n trin pobl, y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud amdanynt yn y system. Felly, gwnaethon ni ddylanwadu ar y penderfyniadau. Ac roedd hyn yn eithaf llwyddiannus, yn enwedig gyda throseddwyr iau, tan y 1990au. Daeth hyn i ben yn sydyn ym 1993, yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol yn yr hydref pan ddywedodd Michael Howard: "prison works". A dyna oedd diwedd y dewisiadau amgen yn lle'r ddalfa, ac roedd rheolwyr y gwasanaethau prawf yn cael eu hannog i beidio â siarad am ddewisiadau yn lle'r ddalfa o'r adeg honno ymlaen.

Beth gallwch chi ei wneud wedyn? Yn ffodus, roedd rhai gwledydd, fel Canada a'r Unol Daleithiau yn benodol, heb fuddsoddi i'r un graddau yn yr athrawiaeth 'does dim byd yn gweithio'. Roedd nifer o ymchwilwyr, seicolegwyr yn bennaf, yn chwilio am bethau a oedd yn gweithio. Roedden nhw'n gwybod nad oedd popeth yn effeithiol; roedden nhw'n gwybod bod angen ceisio cofnodi a nodi'r hyn a oedd yn effeithiol. Felly, roedd gennym y cyfnod 'yr hyn sy'n effeithiol'. Mae rhai goblygiadau anffodus yn gysylltiedig â'r 'hyn sy'n effeithiol' oherwydd y ffordd roedd Tony Blair a llywodraeth Llafur Newydd yn ei ddefnyddio i gyfiawnhau preifateiddio. Ond yn wreiddiol, roedden nhw'n defnyddio'r ymadrodd yng Nghanada ac America i siarad am ddewis dulliau ac ymagweddau a fyddai'n gwneud pobl yn llai tebygol o droseddu. Ac o ddiwedd y 1990au tan ganol y 2010au, cafwyd llawer o ymdrech i ddatblygu ffyrdd o weithio gyda throseddwyr a oedd yn golygu eu bod yn llai tebygol o droseddu. Felly, gallwch chi weld y newid yno, o leihau carcharu, i geisio lleihau troseddu. A daeth y gred bod hyn yn bosib yn ôl yn y 1990au ar ôl cael ei gollwng yn y 1970au i raddau helaeth.

Yn ystod y 1990au a'r 2000au gwnaed llawer o waith i ddatblygu rhaglenni grŵp yn seiliedig ar egwyddorion ymddygiad gwybyddol i geisio dylanwadu ar feddylfryd ac ymddygiad. Ac yna cawson ni gyfnod pan oedd y gwleidyddion eisiau defnyddio'r gwasanaeth prawf i anfon negeseuon am ba mor galed ar droseddu oedden nhw. A chawson ni'r arbrawf anhygoel gyda phreifateiddio a oedd yn seiliedig yn gyfan gwbl

ar ideoleg. Methodd yn wael ac wedyn cawson ni gyfnod o ganoli rheolaeth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef y sefyllfa sydd ohoni nawr. Ac mae rhai agweddau ar hynny nad ydynt yn hollol gadarnhaol. Os ydych chi'n rhoi gwasanaeth bach fel y gwasanaeth prawf gyda gwasanaeth mawr fel carchardai, ac yna'n eu rheoli gyda'i gilydd, pwy sy'n mynd i gael y sylw i gyd a phwy sy'n cael ei esgeuluso? Daeth y gwasanaeth prawf yn rhyw fath o atodiad i'r system garchardai am gyfnod.

*Agenda ymchwil Peter*

Beth roeddwn i'n ei wneud drwy'r cyfnod hwn? Pan oeddwn i'n swyddog prawf, roeddwn i'n arfer poeni'n fawr am faint rydyn ni’n ei wybod am yr agweddau ar ein gweithgarwch sy’n gwneud lles, a dyna un o'r rhesymau pam y troais i at waith academaidd. Roeddwn i'n teimlo y byddai'n ddefnydd da o’m hamser a’m hymdrech i ystyried beth yw'r agweddau sy'n llwyddiannus? Yn debyg i beth roedd rhai o'r Canadiaid yn ceisio ei wneud yng Nghanada ar y pryd.

Yn y 1980au, gwnes i rywfaint o ymchwil gynnar i gymorth i ddioddefwyr, ac wedyn gwaith am gyfiawnder ieuenctid, a oedd yn canolbwyntio ar ddargyfeirio a lleihau'r angen  am garcharu pobl. Gwnes i rywfaint o waith am gyffuriau. A chynhaliais i astudiaeth am orchmynion prawf fel dewis amgen yn lle'r ddalfa, yn seiliedig ar brosiect grŵp a oedd ar waith ym Mhort Talbot. Afan Alternative oedd enw'r prosiect.

Yn y 1990au, roeddwn i'n gweithio gyda'r Sefydliad Troseddeg yng Nghaergrawnt ar adroddiadau cyn dedfrydu. Gwnaethon ni ddadansoddi llawer o adroddiadau a chyfweld â barnwyr i gael eu barn am adroddiadau a oedd wedi cael eu cyflwyno mewn achosion yn eu llysoedd, achos roedden ni'n meddwl byddai ymateb y defnyddiwr yn bwysig. Dywedodd rhai barnwyr nad oedden nhw wedi gweld yr adroddiad hwn o'r blaen, ond roedd eraill yn ei gofio, gan ddweud “dyma'r rhan a oedd yn ddefnyddiol, dyma'r rhan nad oedd yn ddefnyddiol” ac yn y blaen.

Roeddwn i hefyd yn gweithio gyda'r Athro Maurice Vanstone ar ymchwil i’r rhaglen grŵp gyntaf yng Ngwasanaeth Prawf Prydain i ddefnyddio ymddygiad gwybyddol, sef y rhaglen STOP - Straight Thinking on Probation - ym Morgannwg Ganol. Dywedais i wrth y prif swyddog yno, “fydd hi byth yn gweithio”. Daliais i ati a gwneud yr ymchwil i ganfod a fyddai'n gweithio neu beidio ac, mewn gwirionedd, cyflawnodd gryn dipyn. A dyna pryd des i'n rhan hefyd o raglen beilot i asesu risgiau ac anghenion mewn gwahanol rannau o'r DU ac Ynysoedd y Sianel. Ac arweiniodd hynny at lawer mwy o waith, mewn degawd diweddarach.

Yn y 2000au, roeddwn i'n rhan o waith yr Athro Mike Maguire ar gynlluniau braenaru ailsefydlu yn dilyn gwaith roedden ni wedi'i wneud ar ryddhau amodol ac ôl-ofal gwirfoddol. Bues i'n astudio gwahaniaethau ethnig yn y profiad o brawf gyda Dr Sam Lewis. Gwnes i rywfaint o waith ar brosiectau cyffuriau ym maes cyfiawnder ieuenctid, a doedd hynny ddim yn llwyddiannus iawn. A dechreuais i raglen o ymchwil werthuso yn Jersey. Mae gyda nhw ffordd o drin troseddwyr, y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol, o'r enw ymholiadau neuadd y plwyf, sydd wedi bod ar

waith ers canrifoedd. A doedd y system ddim erioed wedi cael ei hastudio nes i fi a Dr Helen Miles yn Jersey ei hystyried. Mae'n llawer mwy cymhleth i mi esbonio heddiw, ond roedd y system yn gweithio'n eithaf da.

Roedd gen i ddiddordeb yn yr hyn a oedd yn llwyddiannus. Os awn ni'n ôl i'r prosiect Afan Alternative. Gwnaeth hanner o aelodau'r grŵp aildroseddu ar ôl mwy na dwy flynedd. Ymhlith pobl debyg, a gafodd ddedfrydau o garchar, y gyfradd aildroseddu oedd 63%. A byddwch chi'n adnabod hyn fel canlyniad ym mhob man. Mae pobl sy'n cael dedfrydau o garchar yn tueddu i wneud yn waeth na phobl debyg sy'n cael dedfrydau ar wahân i garcharu. A rhywbeth sy’n fwy annisgwyl byth, pan edrychon ni ar adroddiadau cyn dedfrydu, gwnaethon ni ganfod bod adroddiadau mwy trylwyr, wedi'u llunio'n well, yn cael canlyniadau gwell. Aethon ni ati i ddatblygu system i werthuso adroddiadau a aeth ymlaen i gael ei defnyddio gan yr arolygiaeth ac amrywiaeth o bobl am oddeutu 20 mlynedd.

Daeth Straight Thinking on Probation, y rhaglen gyntaf i ganolbwyntio ar ymddygiad gwybyddol, tua dechrau'r mentrau 'yr hyn sy'n gweithio' yn y gwasanaeth prawf. Y gyfradd aildroseddu ac euogfarnu ar gyfer y rhai hynny a gwblhaodd y rhaglen oedd 35% mewn blwyddyn. Y gyfradd ar gyfer pobl debyg ar ôl eu rhyddhau o'r carchar oedd 48%. A gwnaethon ni ganfod bod y rhai hynny a gwblhaodd y rhaglen yn llai byrbwyll ac yn fwy ymwybodol o ddioddefwyr.

*Y 2010au - ymchwil i effaith sgiliau goruchwylio unigol*

Yn ddiweddarach, dechreuon ni werthuso effaith goruchwyliaeth unigol. Ac, yn fy marn i, mae'n bwysig iawn canfod pa mor llwyddiannus oedd hyn. Os oedd pobl yn ei wneud yn dda, a oedd yn arwain at ganlyniadau gwell? Wrth i ni siarad am sgiliau goruchwylio, mae'r Canadiaid yn sôn am arferion cywiro craidd, ond yr un yn y bôn ydyn nhw. Roedd y gwasanaeth prawf yn Jersey yn hapus i gymryd rhan yn yr ymchwil hon, pan fyddai wedi bod yn anodd iawn gofyn i unrhyw wasanaeth prawf arall yn y DU ei wneud. Roedd pobl yn rhy bryderus am yr hyn a oedd yn digwydd i'r gwasanaeth prawf i fentro cymryd rhan yn y math hwn o ymchwil, ar wahân i Jersey.

Maurice Vanstone, a ymddeolodd o Brifysgol Abertawe tua dwy flynedd yn ôl, a Pamela Ugwudike, sydd bellach yn Southampton, oedd y cyd-ymchwilwyr ar y prosiect hwn. Ochr yn ochr â Dr Helen Miles, a oedd yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf yn Jersey ar y pryd. Astudiaeth Sgiliau Goruchwylio Jersey, a elwir hefyd yn JS3; dadansoddwyd 95 o gyfweliadau ac 14 o aelodau staff. Roedd gennym ddiddordeb yn y sgiliau roedden nhw'n eu defnyddio a’r effeithiau ar aildroseddu. Wrth i ni gymharu'r bobl dan oruchwyliaeth staff yr aseswyd bod eu sgiliau islaw'r lefel gyfartalog a phobl dan oruchwyliaeth staff yr oedd eu sgiliau'n well na'r lefel gyfartalog, roedd y gwahaniaeth yn eithaf sylweddol. Y gyfradd aildroseddu ymhen dwy flynedd ar gyfer y bobl dan oruchwyliaeth staff llai medrus oedd 58%, a 26% oedd y gyfradd ar gyfer y bobl dan oruchwyliaeth staff mwy medrus. Fel bob amser yn y math hwn o astudiaeth, byddwch chi'n cael canlyniad ac yn dechrau craffu'n fanwl arno i weld beth rydych chi wedi'i wneud yn anghywir. Ond mewn gwirionedd,

doedd dim byd yn anghywir. O edrych ar y lefelau risg, er enghraifft, doedd y staff mwy medrus ddim yn goruchwylio troseddwyr â llai o risg, roedd eu lefelau risg yr un â'r lleill, roedd y risg yn gyson drwy gydol yr astudiaeth.

Y gwahaniaeth oedd yr hyn roedd y swyddogion yn ei wneud. Mae hyn yn bwysig ac yn galonogol, ac mae'n dangos bod goruchwylio troseddwyr ar brawf yn gwneud gwahaniaeth os yw'n cael ei wneud yn iawn. Ar ôl i ni orffen casglu data, roeddwn i'n meddwl y byddai'n rhyddhad mawr i'r swyddogion nad oedd rhaid iddyn nhw ei wneud mwyach, ond y gwrthwyneb oedd yn wir. Ces i alwad ffôn yn gofyn i mi a hoffwn i fynd i Jersey a'u hyfforddi i ddefnyddio'r offerynnau ymchwil rydyn ni wedi'u defnyddio yn yr astudiaeth, fel y gallen nhw eu defnyddio ar ei gilydd.

Ac felly, i'w helpu i wneud hyn, gwnaeth Maurice a minnau - Maurice wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith drafftio - greu llawlyfr am sut i ddefnyddio ein hofferynnau ymchwil, a gwnaethon ni eu cynnig ar ffurf mynediad agored, fel y gall unrhyw un fynd ati. Cafodd ei gyfieithu i'r Ffrangeg a'i anfon at bob swyddog prawf yn Ffrainc. Dydw i ddim yn hollol siŵr pa ddefnydd gwnaethon nhw ohono, ond aeth i bobman. Mae fersiwn Ffinneg, a dydw i ddim yn deall un gair ohoni, ond fe wnaethon nhw rywfaint o waith arni yn Helsinki. Es i draw i Helsinki i wneud rhywfaint o hyfforddiant. Mae wedi cael ei ddefnyddio yng Ngwlad Belg a Chatalonia a lleoedd eraill hefyd. Gan ein bod ni wedi'i wneud yn fynediad agored, dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy sydd wedi bod yn ei ddefnyddio ar gyfer beth, ond rydyn ni'n ymwybodol o rai ohonyn nhw.

*Yr hyn y mae ymchwil ryngwladol yn ei ddweud wrthym ar leihau aildroseddu a pham nad ydym yn gwneud hyn*

Beth rydyn ni'n ei wybod o'r 50 mlynedd hyn o geisio darganfod beth sy'n gweithio, beth sy'n gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd? Rydym yn gwybod y gallwn leihau dedfrydau carchar drwy gyfathrebu effeithiol ar gyfer dedfrydwyr. Rydyn ni'n gwybod y gallwn ni roi dedfrydau cymunedol sy'n lleihau aildroseddu. Rydyn ni'n gwybod y gallwn ni hyrwyddo meddwl ac ymddygiad cymdeithasol trwy raglenni grŵp, ac yn enwedig trwy oruchwyliaeth unigol, os gwnawn ni hynny yn y modd cywir. Gwyddom y gellir gwella'r sgiliau a ddefnyddir gan staff gwasanaethau prawf mewn goruchwylio trwy hyfforddiant. Mae rhai pobl yn dda iawn, mae rhai pobl yn wael iawn, ond mae'r rhan fwyaf o bobl rywle yn y canol. Maen nhw'n symud i fyny'r raddfa gyda hyfforddiant priodol.  Rydyn ni'n gwybod bod 'Risg, Angen a Bod yn Ymatebol', fel fframwaith ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau, yn hwyluso gwneud penderfyniadau da, ac rydyn ni'n gwybod sut i wneud hynny.

Y broblem fawr i mi ar hyn o bryd yw… Pam nad ydym yn gwneud y pethau hyn yn gyson yng Nghymru a Lloegr? Yn rhannol, wrth gwrs, mae gwleidyddiaeth yn gysylltiedig â’r ffaith bod gan wleidyddion syniadau gwahanol ynglŷn â sut olwg ddylai fod ar wasanaethau prawf. Ond yn bennaf, dyma gyflwr y gwasanaeth prawf o ganlyniad i'r ad-drefnu.  Mae staff wedi'u gorlwytho, ac nid yw'r lefel gyfartalog o brofiad yn ddigon uchel mewn gwirionedd i allu trosglwyddo arfer gyhoeddus yn y

diwylliant dysgu priodol gan y bobl fwyaf profiadol a'r rhai llai profiadol. Mae'r cyswllt â dedfrydwyr yn gyfyngedig. Arferai'r Gwasanaeth Prawf gael ei reoli gan ddedfrydwyr. Erbyn hyn, mae gan ddedfrydwyr ddealltwriaeth llawer gwaeth o ddedfrydau cymunedol, ac maen nhw'n eu defnyddio llawer llai, tua hanner cymaint ag yr oedden nhw'n arfer ei wneud. Mae hynny'n golygu bod mwy o achosion y gwasanaeth prawf yn arwain at ddedfrydau ôl-garchar yn lle dedfrydau cymunedol.

Mae pryderon ynghylch rheolaeth or-ganolog a rheolaeth o'r brig i lawr. Os oes gan bobl yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder syniad da, maen nhw'n tueddu i'w weithredu mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i staff y Gwasanaeth Prawf ei dderbyn fel syniad da, oherwydd ei fod yn troi'n set o gyfarwyddiadau. Yn lle syniadau y gellir eu cyfleu i bobl, fel eu bod yn eu derbyn ac yn dysgu credu ynddynt. Bydd y rhai ohonoch sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf ar hyn o bryd yn deall beth rwy'n ei olygu. Wrth dicio blychau'r rhai hynny sydd dan oruchwyliaeth, a gormod o bethau i'w cwblhau ar gyfrifiadur yn lle treulio amser yn siarad â'r bobl rydych chi'n eu goruchwylio. Efallai bod hynny'n datblygu gyda thechnoleg newydd, ac efallai y bydd deallusrwydd artiffisial yn helpu gyda hynny.

Yn Jersey un o'r pethau yr edrychais arno oedd cydymffurfiaeth. Sut rydych chi'n osgoi torri amodau gormod o unigolion sydd ar brawf. Roedd ganddyn nhw system i wahodd pobl i mewn i drafod pan nad oedden nhw'n adrodd a gweld a oes rhywbeth y gellid ei wneud i helpu. Dwi'n meddwl y bu’n gweithio'n eithaf da. A phan mae traean o'r bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar dan oruchwyliaeth yn cael eu hanfon yn ôl, a'r rhan fwyaf o'r rhai hynny sy'n cael eu hanfon yn ôl oherwydd nad ydyn nhw wedi adrodd i swyddog prawf, yna dwi'n meddwl bod hyn ychydig dros ben llestri, yn hytrach na bod yn ddefnyddiol. Mae'n swnio fel pe bai hynny'n mynd i newid o dan y Ddeddf Dedfrydu newydd, oherwydd bydd llawer llai o oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu i garchar.

*Y bwlch gweithredu*

Pam mae hyn yn digwydd? Mae'n dod yn amlwg yn rhyngwladol ym maes prawf - ac mae llawer o bobl eraill wedi bod yn gwneud yr un math o ymchwil â finnau o amgylch Ewrop ac o amgylch Canada a'r Unol Daleithiau - fod bwlch gweithredu fel arfer rhwng yr hyn a wyddom a'r hyn a wnawn. Mae rhai o'r rhesymau dros y bwlch hwn yn ymwneud â diwylliant sefydliadau a'r ffordd y mae pobl yn amsugno ac yn prosesu gwybodaeth newydd. Mae rhai o fy nghydweithwyr Americanaidd yn dechrau siarad am wyddor weithredu a datblygu corff o waith o amgylch hynny.

Beth rydym ni'n ei ddysgu o wyddor weithredu? Mae angen adnoddau digonol arnoch chi. Mae angen rheolaeth ddibynadwy arnoch chi. Mae hynny'n golygu rheolwyr y gallwch chi gyfathrebu â nhw ac sydd â'r un wybodaeth ac ymrwymiadau ag sydd gennych chi'ch hun. Yn y gwasanaeth prawf, mae'n tueddu i olygu rheolwyr sydd wedi gwneud gwaith swyddogion prawf eu hunain, a oedd bob amser yn wir, ond nid yw hynny bod amser yn wir ers ad-drefnu a chanoli yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae cydweithwyr profiadol yn bwysig i drosi diwylliant y sefydliad. Mae'n rhaid i ddiwylliant y sefydliad fod yn ddiwylliant dysgu, rhywbeth yr oedd Maurice a finnau'n arfer ei ddisgrifio fel diwylliant o chwilfrydedd. Mae angen proffesiynoldeb arnom. Mae arnom angen strategaethau sydd wedi'u datblygu'n lleol, gan weithio gydag asiantaethau lleol a dedfrydwyr lleol. Mae angen cyfathrebu'n well â nhw. Wrth gwrs, mae angen i ni werthuso popeth, dyna beth byddech chi'n disgwyl i ymchwilydd ei ddweud, ond mae'n talu ar ei ganfed mewn gwirionedd, oherwydd ni fyddem yn gwybod beth oedd yn gweithio pe na byddem yn ei astudio. Dim gormod o ad-drefnu. Mae rheolwyr yn hoffi ad-drefnu, oherwydd eu bod nhw'n hoffi gwneud effaith yn y ffordd honno. Ac yn y pen draw bydd gennych chi staff sy'n dal i gael trafferth wrth ddod i delerau â'r ad-drefnu diwethaf pan ddaw'r un nesaf.

Ysgrifennais, ychydig amser yn ôl, ddarn am ‘Adfywio’r Gwasanaeth Prawf’, ac mae hynny’n sôn am yr un strategaethau mewn gwirionedd. Mae'r rhain i gyd i ryw raddau wedi'u datblygu gan dystiolaeth, nid ydynt bob amser yn cael eu hybu gan lefelau uchel o sicrwydd, ond maent yn cael eu datblygu gan dystiolaeth awgrymog mewn rhai achosion, a dyma'r 10 peth roeddwn i'n meddwl y gellid eu gwneud yn realistig:

1. **Datblygu sgiliau ymarfer ar gyfer goruchwylwyr**
2. **Llwythi achosion synhwyrol**
3. **Goruchwyliaeth dda:** Goruchwyliaeth gan staff uwch sydd mewn gwirionedd yn gyfarwydd â'r grefft eu hunain ac sydd ag amser i wrando arni.
4. **Ailosod goruchwyliaeth ôl-garchar ar gyfer dedfrydau byr**, dwi'n credu bod hynny'n ddadl y gallem fod wedi'i hennill, oherwydd mae'n edrych fel ei bod yn mynd i ddiflannu.
5. **Gweithio'n lleol**
6. **Ail-ymgysylltu â dedfrydwyr**
7. **Adnewyddu'r genhadaeth ddadgarcharu:** polisi llywodraeth ynghylch lleihau carcharu y gellir ei fynegi fel cenhadaeth i'r gwasanaeth prawf, fel y gellir gweld bod y gwasanaeth prawf yn gweithio gyda'r llywodraeth. Pan ddechreuais fel swyddog prawf, roedd gennym ni 35,000 o bobl yn y carchar. Roedden ni'n teimlo bod hyn llawer gormod. Erbyn heddiw mae'r ffigwr yn agos at 100,000. Felly, mae'n rhaid bod lle i ddadgarcharu.
8. **Cael Gwasanaeth Prawf wedi'i reoli gan swyddogion prawf**: ar wahân i'r gwasanaeth sifil a charchardai. Mae rhai o'r bobl sy'n ei reoli nawr yn eithaf da, ond dydw i ddim yn credu bod y gwasanaeth sifil wedi bod yn gartref defnyddiol i wasanaeth prawf. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y gwasanaeth yn gweithio'n well pan fu’n cael ei reoli’n lleol; y pryd hynny, roedd yn cael ei reoli gan ymddiriedolaethau lleol neu fyrddau lleol sy'n gallu ymgysylltu'n well yn lleol.
9. **Croesawu technoleg:** Wna i ddim siarad am dechnoleg, heblaw bod pethau da yn datblygu o dechnoleg, dydy technoleg ddim yn ddrwg mewn gwirionedd.
10. **Gwerthuswch bopeth**

Os edrychwch ar Lawlyfr cyntaf erioed y Swyddog Prawf, a gyhoeddwyd ym 1935, fe welwch fod trafodaeth yno ynghylch a ddylid trefnu gwasanaethau Prawf yn genedlaethol, fel bod swyddogion prawf yn rhan o'r gwasanaeth sifil, neu a ddylid eu trefnu'n lleol? Pennwyd hyn am gyfnod hir oherwydd ym 1922 penderfynodd y pwyllgor adrannol y dylai swyddogion prawf gael eu penodi gan y llysoedd a'u talu gan yr awdurdodau lleol. Pam? Oherwydd bod gwasanaeth cenedlaethol sydd wedi'i ganoli yn y llywodraeth ganolog i bob golwg yn anwybyddu egwyddorion pwysig sy'n gynhenid yn y system brawf. Ar y naill law, y llys a’r swyddog prawf sy’n gorfod cydweithredu yn y ffordd agosaf posibl – ac ar y llaw arall, y swyddog prawf a’r asiantaethau cymdeithasol yn yr ardal lle mae’r swyddog yn gweithio. Ond heblaw am hynny, mae hyn yn ymddangos i mi fel yr union achos rydyn ni wedi bod yn ei ddadlau yng Ngrŵp Datblygu Prawf Cymru ynglŷn â cheisio dod â'r wybodaeth reoli a pholisi yn agos at y bobl y mae angen i chi weithio gyda nhw, a'r bobl rydych chi'n cyflawni ar eu cyfer. Roedden nhw eisoes yn gwybod hyn i gyd yn ôl ym 1935. Mae'n drueni eu bod nhw wedi anghofio rhywfaint ohono. Mae'n bryd cofio hyn eto.

*Detholiad o Gyfeiriadau*

Raynor, P., Ugwudike, P., & Vanstone, M. (2014). The impact of skills in probation work: A reconviction study. *Criminology & Criminal Justice*, *14*(2), 235-249. https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1748895813494869

Raynor, P. (2024). Reviving Probation: Ten Evidence-Driven Strategies. Probation Institute. https://www.probation-institute.org/news/reviving-probation-ten-evidence-driven-strategies

## Sgyrsiau sydyn

# Gwasanaeth prawf lleol: Archwilio Ymagweddau Newydd i Gymru

Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe

e.c.rabaiotti@abertawe.ac.uk

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd syniadau o gyflwyniad sy'n archwilio dulliau arloesol, lleol o ymdrin â'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ymchwil i ddau faes polisi ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg - Iechyd Cynhwysol a Hybiau Cynnes - ac yn awgrymu y gellid eu gosod yng nghyd-destun uchelgeisiau ehangach ar gyfer model prawf datganoledig a chymunedol-integredig. Mae'r dulliau hyn yn ymateb i'r rhwystrau allweddol y mae pobl ar brawf yn eu hwynebu i gyflawni ymatal, gan gynnwys iechyd a lles gwael, cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol cyfyngedig, mynediad cyfyngedig at wasanaethau, a diffyg cyfalaf cymdeithasol.

### Cyd-destun: Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau prawf datganoledig, sy'n canolbwyntio ar y gymuned-

Mae Grŵp Datblygu Gwasanaeth Prawf Cymru, sy’n rhan o Ganolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, wedi datblygu cyfres o bapurau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnig model ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru sy'n cyd-fynd yn agosach â systemau datganoledig a pholisi cymdeithasol Cymru. Mae syniadau diweddaraf y grŵp wedi'u cyfuno i greu set o gynhwysion allweddol ar gyfer gweithgarwch prawf effeithiol sydd yn:

- Ailbroffesiynoli gwasanaeth cyfiawnder troseddol hanfodol
- Cyfrannu at bolisi cymdeithasol ac amcanion cyfiawnder troseddol a chymdeithasol Llywodraeth Cymru a'u gweithredu
- Cael effaith ar yr argyfwng mewn carchardai a chyfraddau aildroseddu oedolion drwy weithio ar sail tystiolaeth
- Pwysleisio gwasanaethau sy’n cael eu rheoli, eu comisiynu a’u darparu'n lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth ar lefel Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf
- Ail-bwysleisio adsefydlu, ymatal a phwysigrwydd perthnasoedd fel amcanion proffesiynol arweiniol ar gyfer staff y gwasanaeth prawf
- Ailsefydlu perthnasoedd agos â llysoedd lleol, teuluoedd a chymunedau

- Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr troseddau'n cael eu clywed ar bob cyfle gyda phwyslais ar ehangu gwasanaethau cyfiawnder adferol a llysoedd datrys problemau
- Meithrin cyfranogiad sefydliadau yn y sector gwirfoddol lleol i gynnig gwasanaeth adsefydlu ymarferol

Yr hyn sy'n gyffredin am yr uchelgeisiau hyn yw cyfranogiad agosach y gymuned mewn gwasanaethau prawf a bywydau pobl ar brawf a chryfhau perthnasoedd lleol. Ar hyn o bryd caiff ymagweddau at weithio gyda phobl ar brawf eu llunio'n ganolog, yn hytrach na chael eu datblygu'n lleol gan ddefnyddio arbenigedd y staff lleol sy'n gweithio gyda phartneriaid lleol a chymunedau yng Nghymru, yn ogystal â'r bobl hynny eu hunain sydd ar brawf. Ar y llaw arall, mae enghreifftiau fel cynllun 'Grand Avenue' (a drafodwyd mewn papur ar wahân yn yr adroddiad hwn gan Maguire, Thomas a Williams), yn dangos bod mentrau a sbardunir yn lleol yn gallu ysgogi ffyrdd newydd o feddwl ym maes ymarfer y gwasanaeth prawf.   Mae dwy enghraifft arall y dylid eu hystyried yn cynnwys cydweithredu o ran 'iechyd cynhwysiant' a'r potensial i gael 'hybiau cynnes' i bobl ar brawf.

**Enghraifft un: Ymagweddau cydweithredol at iechyd cynhwysiant**

Mae ymagweddau at iechyd cynhwysiant yn helpu i liniaru'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. I bobl ar brawf, sydd yn aml ag anghenion eraill ar yr un pryd, megis salwch iechyd meddwl, cyflyrau iechyd corfforol cronig a chamddefnyddio sylweddau, gall systemau iechyd traddodiadol fod yn ddigyswllt, yn anhygyrch neu gallant eu stigmateiddio. (Rabaiotti, 2024a).  Mae cydweithrediadau lleol rhwng y gwasanaeth prawf, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd, megis y rhai hynny yn Abertawe a Chaerdydd, wedi dechrau gweithredu'r canlynol:

- Asesiadau anghenion iechyd i bobl ar brawf mewn Unedau Darpariaeth Prawf
- Modelau allgymorth a mewngymorth, gan gynnwys clinigau iechyd prawf newydd
- Sgrinio a thriniaeth gwell, gan gynnwys ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r ymdrechion hyn yn dechrau dangos sut y gall addasu gwasanaethau lleol ddiwallu anghenion cymhleth yn fwy effeithiol na modelau safonol. Gwnaeth ymchwil ansoddol yn 2024 gan Rabaiotti a Morgan (ar ddod) mewn Uned Darpariaeth Prawf yn ne Cymru archwilio profiadau iechyd dynion ar brawf a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi nhw.

Ymhlith y rhwystrau a nodwyd gan ddynion ar brawf oedd:

- Diffyg parhad a chydlyniant mewn perthynas â gofal
- Diffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol a systemau

- Systemau apwyntiadau anhyblyg
- Allgáu digidol, gan effeithio ar fynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd

Ymhlith y cyfleoedd a amlygwyd gan y dynion ar brawf oedd:

- Canolfannau galw heibiosy'n cynnig cymorth ar gyfer anghenion niferus a chyswllt anffurfiol
- Allgymorth a chefnogaeth gan gymheiriaid
- Gweithwyr cymorth arbenigol a hyrwyddwyr iechyd

Gwnaeth gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys swyddogion prawf, meddygon teulu a nyrsys, a gweithwyr camddefnyddio sylweddau) gydnabod yr heriau a gyflwynir gan allgáu o ran gwasanaethau iechyd, gan gynnwys systemau toredig (yn arbennig mewn perthynas â pharhad gofal, cydweithio a rhannu gwybodaeth) nad ydynt yn gallu ymateb yn gyfannol i anghenion cymhleth sy'n effeithio ar yr unigolyn ar yr un pryd, ac mae hyn, i'r gwrthwyneb, yn atgyfnerthu allgáu ar sail stigmateiddio. Yn gadarnhaol, mae arferion cynhwysiant newydd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys arloesi, eiriolaeth a datrys problemau mewn ffordd greadigol yn lleol.

Amlygodd y dynion yn ein hastudiaeth y cyfle i gael hyb cymunedol galw heibio a allai gefnogi eu hiechyd a'u lles yn ogystal â phenderfynyddion iechyd ehangach (ac ysgogwyr troseddu) megis cyflogaeth, tai a chymorth ariannol.   Yn ogystal â'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, rhwydwaith cymdeithasol a chysylltiadau â gwasanaethau eraill. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion iechyd ynghylch gwasanaethau integredig a hygyrch (GIG Lloegr, 2023). Er y gallai hybiau prawf penodol, megis Grand Avenues, fod yn uchelgais tymor hwy, mae gan Gymru rwydwaith helaeth eisoes o Hybiau Cynnes sy'n gallu cefnogi poblogaethau iechyd cynhwysol, megis pobl ar brawf.

**Enghraifft dau: Datblygu Hybiau Cynnes**

Bu 'hybiau cynnes' yn cael eu datblygu ar lawr gwlad ers 2022, gan elwa o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r hybiau hyn yn cynnig lletygarwch cynnes ledled Cymru yn ystod yr argyfwng costau byw. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn cynnig llawer mwy na diod boeth a rhywle i gadw'n gynnes;  maent wedi dod yn adnoddau cymunedol cymdeithasol ac emosiynol pwysig. Cymerodd dros 40 o gyfranogwyr ran mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2023 mewn dinas yng Nghymru drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, yn ogystal â digwyddiad animeiddio a chymunedol a gafodd ei gyd-greu i drafod canfyddiadau (gweler Rabaiotti, 2024b). Dangosodd yr ymchwil fod hybiau cynnes yn gweithredu fel:

- Mannau cynnes (am ddim) - sy'n cynnig cysur a lletygarwch i'r rhai hynny mewn tlodi
- Mannau (cynhwysol) diogel - amgylcheddau cefnogol ac anfeirniadol

- Mannau croesawgar (ar gyfer cysylltu ag eraill) - meithrin perthnasoedd a lleihau unigrwydd
- Mannau dysgu - meithrin gwybodaeth, sgiliau ac ymgysylltu â'r gymuned

Er i'r hybiau gael eu datblygu i ddechrau mewn ymateb i dlodi, y prif ganfyddiad oedd buddion cymdeithasol hybiau cynnes o ran cefnogi lles a chynhwysiant. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd rhai pobl a allai elwa'n benodol o hybiau cynnes yn eu defnyddio nhw ac y gellid gwneud mwy i uchafu potensial y mannau hyn a'u lle yn y gymuned. Er enghraifft, a allai hybiau cynnes helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol i bobl ar brawf i gefnogi ymatal rhag troseddu?

Bydd prosiect dilynol yn parhau i fod ar waith tan 2027, fel rhan o Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) sy'n ceisio deall effaith ehangach hybiau cynnes ledled Cymru a'u potensial ar gyfer poblogaethau sydd wedi'u hallgáu. Mae'r astudiaeth yn archwilio mynediad a chynhwysiant mewn hybiau cynnes a'u cyfraniad at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol mewn cymunedau. Mae'n archwilio sut mae hybiau cynnes yn gorgyffwrdd â hybiau cymunedol a pholisïau cynhwysiant ehangach.

Casglwyd dros 176 o ymatebion arolwg gan gydlynwyr hybiau cynnes a gwirfoddolwyr cysylltiedig yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2026 ac mae'r canfyddiadau cynnar yn dangos bod hybiau cynnes yn gallu darparu cymorth anfeirniadol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gaethiwed yn ogystal â chynnig cymorth i unigolion sy'n profi digartrefedd, gan gynnwys eu cyfeirio at wasanaethau lles a thai. Gall yr hybiau helpu wrth fagu hyder, hunan-werth a chysylltiad cymunedol. Mae tystiolaeth uniongyrchol yn awgrymu bod hybiau cynnes yn gweithredu fel llinellau bywyd ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio i raddau helaeth, gan gynnig diogelwch, bwyd, sefydlogrwydd a pherthnasoedd cadarnhaol.

### Y Goblygiadau ar gyfer y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru

Mae'r modelau hybiau cynnes ac iechyd cynhwysiant yn amlygu'r cyfle i'r gwasanaeth prawf gael ei gyflawni'n lleol, a'i integreiddio yn y gymuned, drwy gydweithio'n ystyrlon ar draws y sectorau iechyd, gwirfoddol a chymunedol. Ar gyfer pobl ar brawf, mae gan hyn y potensial i gynnig mynediad at gymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd ac sy'n gallu mynd i'r afael ag anghenion tai, iechyd, lles a chymdeithasol, sy'n gallu ategu goruchwyliaeth dan orchmynion cymunedol. Mae ymagweddau o'r fath yn gydnaws â gweledigaeth Grŵp Datblygu Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer model gwasanaeth prawf datganoledig a sbardunir gan y gymunedac sy'n gallu lleihau aildroseddu a gwella lles.

*Cyfeiriadau*

Borja S, Deering J, Feilzer M, et al. (2024). Towards a devolved Probation Service in Wales: A collection of papers by the Probation Development Group. Welsh Centre for Crime and Social Justice. https://wccsj.ac.uk/en/publications/publications-2024

Deering, J., Feilzer, M. Y., & Rabaiotti, E. (2025). Professional Registration of Probation Practitioners in a Devolved Welsh Probation Service. Probation Journal, 72(2), 186-201. https://doi.org/10.1177/02645505251336647

Rabaiotti, E. (2024a). People on probation as an inclusion health group: Exploring needs, barriers and service provision in Wales. Probation Journal, 71(4). https://doi.org/10.1177/02645505241247291

Rabaiotti, E. (2024b). Safe and welcoming “warm hubs”: Building social connections and inclusion in Welsh communities. Journal of Community Safety and Well-Being, 9(1), 46–51. https://doi.org/10.35502/jcswb.370

Rabaiotti, E. (2025). ‘Work locally’: The slow journey to devolving probation in Wales. Probation Journal. https://doi.org/10.1177/02645505251373029

Wales Probation Development Group (2025). Briefing note from the Wales Probation Development Group – October 2025. Welsh Centre for Crime and Social Justice. https://wccsj.ac.uk/en/publications/publications-2025

## Technoleg sy'n Seiliedig ar Ymataliad - ap "My Journey"

Dr Gemma Morgan – Prifysgol Abertawe

g.h.morgan@abertawe.ac.uk

### Cyflwyniad

Mewn blynyddoedd diweddar, bu canolbwynt cynyddol ar integreiddio technoleg ddigidol yn y system cyfiawnder troseddol. Yn hanesyddol, defnyddid llawer o'r ehangu technolegol hwn at ddibenion goruchwylio a monitro, megis olrhain cydymffurfiaeth ag amodau prawf. Fodd bynnag, mae cyfres newydd o arloesedd yn symud y ffocws tuag at ddatblygu technoleg sy'n canolbwyntio ar ymatal rhag troseddu. Enghraifft ddelfrydol o'r newid hwn yw "My Journey", ap ar y we a ddyluniwyd yn benodol i gefnogi unigolion yn y system cyfiawnder troseddol drwy flaenoriaethu gallu unigolion i weithredu'n annibynnol a thrwy ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar gryfderau.

### Pontio'r Bwlch rhwng Damcaniaeth ac Ymarfer

Datblygwyd "My Journey" gennyf i (Dr Gemma Morgan ym Mhrifysgol Abertawe) mewn partneriaeth â'r sefydliad trydydd sector Include UK a Labordy Arloesi Cymru yn sgîl sylweddoli rhywbeth syml: er bod damcaniaethau ymatal rhag troseddu'n pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd dynol a gallu pobl i weithredu'n annibynnol, nid yw'r rhan fwyaf o'r offer digidol yn y sector cyfiawnder yn gwneud hynny. Cafodd yr ap ei greu gan ddefnyddio methodoleg gyd-ddylunio Double Diamond, gan gynnwys 41 o unigolion a chanddynt brofiad personol uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol (Aelodau Include UK) a phump o ymarferwyr. Gwnaeth yr ymagwedd gydweithredol hon sicrhau i'r dechnoleg gael ei chreu "ar y cyd â'r defnyddwyr" yn hytrach nag "ar eu rhan" yn unig, gan olygu ei bod yn ymatebol i'w hanghenion a'u realiti.


### Cipolwg agosach ar nodweddion yr Ap

Hygyrchedd oedd un o'r prif bryderon. Amlygodd ymchwil flaenorol Gemma fod pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol wedi'u hallgáu'n ddigidol yn anghyfartal o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Morgan et al., 2025). I fynd i'r afael ag allgáu digidol, datblygwyd "My Journey" fel ap ar y we yn hytrach nag ap symudol, gan alluogi defnyddwyr i'w gyrchu drwy lechi a chyfrifiaduron cymunedol os nad oedd ganddynt ffôn clyfar neu ddata.


*Profiad Aelodau* - Mae hafan yr aelodau'n defnyddio eiconau gweledol a lliwiau cyferbyniad uchel fel bod modd i bobl a chanddynt lefelau llythrennedd amrywiol ei defnyddio.




Un o'r nodweddion amlycaf yw'r *Asesiad Lles/Anghenion*. Yn wahanol i asesiadau risg traddodiadol, mae hyn yn galluogi unigolion i nodi eu hanghenion eu hunain ar draws 12 maes, megis tai, caethiwed ac iechyd emosiynol. Mae defnyddwyr yn defnyddio graddfa symudol i roi sgôr i'w cyflwr presennol, gan roi'r annibyniaeth iddynt lywio eu taith gymorth eu hunain.  Seilir y raddfa ar sgoriau o 1 i 10. Oes bydd aelod yn cael sgôr sy'n llai na 5, bydd yr ap yn creu dolenni i wasanaethau cymorth lleol/cenedlaethol sy'n gallu eu helpu gyda’r angen penodol hwnnw:





Mae'r nodwedd *Cyfnodolyn* yn cefnogi hyn ymhellach drwy alluogi defnyddwyr i nodi eu hwyliau gan ddefnyddio emojis, gan atal rhwystrau llythrennedd a rhoi i ymarferwyr olwg gyfannol ar les unigolyn.




*Grymuso Ymarferwyr* - I staff, mae'r ap yn darparu Dangosfwrdd Ymarferwyr soffistigedig sy'n cynnig mwy na nodiadau achos syml.




Mae nodweddion dadansoddi AI integredig yn olrhain cynnydd aelod dros amser. Os bydd ymarferwr yn sylwi ar ddirywiad sylweddol ym metrigau lles unigolyn, gall ymyrryd yn rhagweithiol cyn argyfwng. Mae hyn yn dangos athroniaeth graidd yr ap: dylai technoleg ategu a gwella perthnasoedd dynol yn hytrach na'u disodli.




**Heriau a'r daith o'n blaenau**

Yn sgîl rhoi ap "My Journey" ar waith, daeth yn amlwg nad yw technoleg yn bodoli mewn gwagle. Yn aml bydd angen cymorth dwys ar sail un i un ar ddefnyddwyr a chanddynt anghenion cymhleth wrth iddynt gynefino â'r ap. At hynny, mae cynaliadwyedd offer o'r fath yn dibynnu ar gyllid parhaus, sy'n her sylweddol i'r trydydd sector. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae "My Journey" yn cynrychioli newid hollbwysig tuag at dechnoleg sy'n gwella cyfalaf. Mae'n cynnig platfform lle gall unigolion olrhain eu twf eu hunain, pennu nodau a chyrchu cyfeirlyfr o wasanaethau lleol i adeiladu'r cyfalaf cymdeithasol sydd ei angen ar gyfer ymatal rhag troseddu ar sail hirdymor. Wrth i ni edrych tuag at ddyfodol cyfiawnder troseddol, mae "My Journey" yn gweithredu fel glasbrint ar gyfer sut gallwn drosi damcaniaethau/ymchwil cymhleth yn offer ymarferol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac sydd wir yn gallu ei gefnogi yn ei daith ymaith o drosedd i ddyfodol iachach a hapusach.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://my-journey.uk

*Cyfeiriadau*

Morgan, G. (2025). Co-designing for desistance: Developing My Journey to support people in the criminal justice system. *European Journal of Probation*, *17*(3), 220-245. https://doi.org/10.1177/20662203251391879

Morgan, G., Clark, K. J., & Taxman, F. S. (2025). Using latent class analysis to identify need typologies for men preparing for re-entry. *Criminal Justice and Behavior*, *53*(3), 337-356.

Morgan, G., Smith, L. R., Walker, C., & Taxman, F. S. (2025). Digital justice: accessibility factors of smartphone apps for criminal legal system-involved people. *The Prison Journal*, *105*(2), 131-151.

Morgan, G., Walker, C. & Taxman, F. (2025). Understanding the access to and use of digital technology by people in the criminal legal system: empirical findings from Wales. *Health Justice* 13, 16. https://doi.org/10.1186/s40352-025-00326-8

## Meithrin diogelwch a thwf yn y gwasanaeth prawf: Cynllunio nodau gyda phobl ar brawf a goruchwyliaeth wedi'i llywio gan drawma ar gyfer staff

Yr Athro Jason Davies, Prifysgol Abertawe

Jason.Davies@abertawe.ac.uk

### Cyflwyniad

Archwiliodd y cyflwyniad hwn ddwy ymagwedd at feithrin diogelwch a thwf yn y gwasanaeth prawf. Taflodd yr ymagwedd gyntaf oleuni ar ffordd strwythuredig o ailgysylltu'r gwasanaeth prawf â phennu amcanion a'u hadolygu, wrth i'r ail ymagwedd hyrwyddo goruchwyliaeth a chymorth gan ymarferwyr wedi'u llywio gan drawma blaenorol yr unigolyn.

### Cynllunio Nodau yn y Gwasanaeth Prawf - Defnyddio ymagwedd strwythuredig at feithrin diogelwch a thwf

Mae pennu nodau'n rhan hanfodol o waith prawf effeithiol, gan weithredu fel mecanwaith strwythuredig ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad, cefnogi ymatal rhag troseddu a helpu unigolion i ddod o hyd i'w ffordd pan fyddant yn wynebu rhwystrau i newid, a'u cefnogi i'w goresgyn.  Mae cynllunio nodau effeithiol yn galluogi amcanion ystyrlon i gael eu nodi yn hytrach na chael eu gorfodi; gan gynorthwyo wrth flaenoriaethu a dilyniannu meysydd angen a sefydlu fframwaith personol ar gyfer monitro cynnydd dros amser.  Yn ôl (Bonta ac Andrews, 2017) mae cynllunio nodau'n galluogi ymagweddau Risg, Anghenion ac Ymatebolrwydd ac ymagweddau Bywydau Da (Ward, 2002), i gael eu gwireddu drwy ymagwedd bersonol at leihau risg a chreu atebion amgen i drosedd.

Mae'r Goals and Plans Card Sort Task (Davies et al, 2022, 2024) yn cynnig fframwaith strwythuredig ar gyfer archwilio meysydd bywyd o bwys drwy ddeialog gydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy nodi amcanion ac archwilio eu pwysigrwydd cymharol i'r unigolyn, mae'r ymagwedd hon wedi'i gwreiddio yng ngwerthoedd yr unigolyn ei hun, y pethau sy'n ei gymell a'i gyd-destun amgylchiadol. Mae tynnu sylw at ffactorau megis ymdeimlad unigolyn o alluogedd a rheolaeth, ei gynlluniau a'i strategaethau ar gyfer cyflawni'r nod, yr adnoddau sydd eu hangen, rhwystrau i gyflawni'r nod a'i ymrwymiad i gyflawni'r nod, yn galluogi staff y gwasanaeth prawf i gyfeirio cymorth, arweiniad, cyngor ac ymyrraeth wrth hefyd fonitro cyflawniad y nod.

Mae'r ymchwil sy'n sail i'r ymagwedd hon yn awgrymu bod y lefelau a ganfyddir o alluogedd a rheolaeth yn amrywio ar draws nodau a bod manylion y nod fel arfer yn datgelu gwybodaeth allweddol i lywio rheoli risg a chynllunio diogelwch.  Mae hefyd yn cynnig ffordd i leihau risg a datblygiad rhag-gymdeithasol fod yn ystyrlon i'r

person ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r nodau hynny sydd fwyaf pwysig i'r unigolyn. Gallai'r rhain gynnwys nodau sy'n gysylltiedig â'r 'cartref a byw yn y dyfodol', 'perthnasoedd' a 'dysgu a gweithio'. Fel gyda'r boblogaeth ehangach, mae hefyd yn hwyluso pwyslais ar nodau 'cyrhaeddiad' yn hytrach na nodau 'osgoi' a allai helpu gyda gwella llwyddiant y nod.

**Goruchwyliaeth sy'n Ystyriol o Drawma ar gyfer Staff y Gwasanaeth Prawf**

Yn y blynyddoedd diweddar, cafwyd ffocws cynyddol ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol. Cafodd hyn ei ysgogi, yn rhannol, drwy gydnabod i ba raddau y mae profiadau niferus o adfyd yn ystod plentyndod a thrawma oedolion yn bresennol ymysg y rhai yn y system cyfiawnder troseddol. O ganlyniad, mae gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth prawf yn gweithio'n aml gydag unigolion sydd wedi byw drwy adfyd sylweddol, ac mae ganddynt yn aml hanes o drawma cymhleth a lluosog. Ynghyd â hyn, mae ymchwil o leoliadau fforensig eraill yn awgrymu y bydd gan lawer o staff brofiad personol uniongyrchol o adfyd, colled neu drawma y tu hwnt i'r cyd-destun gwaith. Yn ogystal, gall staff wynebu cymysgedd o ddigwyddiadau acíwt, megis bygythiadau neu ymosodiadau uniongyrchol a straenachoswyr cronig, gan gynnwys llwyth gwaith trwm a phrinder adnoddau. Yn y cyd-destun gwaith 'llawn trawma' a thrawmateiddio hwn, mae staff yn ymgymryd â gwaith sydd yn aml yn heriol yn emosiynol, yn gymhleth ac yn gallu cyflwyno lefel uchel o risg bersonol a phroffesiynol bosib. Mae'r profiadau hyn yn creu amodau lle gall ymatebion i drawma - amlwg a chynnil - lywio lles a gweithgarwch proffesiynol staff.

Mae'r erthygl am oruchwyliaeth staff sy'n ystyriol o drawma ac ymarfer myfyriol gan Davies a Jones (2024) yn adeiladu ar ymarfer goruchwyliaeth staff presennol mewn cyd-destunau fforensig (Davies, 2015). Mae'n ceisio datblygu a rhoi fframwaith mwy manwl ar gyfer swyddogaeth adferol (cefnogol) goruchwyliaeth, wrth dalu sylw i agweddau ffurfiannol (dysgu) a normadol (proffesiynol a moesegol) goruchwyliaeth. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys rhagweld ail-drawmateiddio posib, amlygu cryfderau a ffrwyno ymatebion emosiynol yn rhagweithiol yn hytrach nag ymateb i argyfyngau'n unig. Mae gan oruchwylwyr rôl hanfodol wrth roi lleoedd myfyriol i staff lle gall ymatebion gael eu prosesu'n ddiogel ac yn adeiladol a gellir cyfeirio at gymorth pan fydd angen hyn.

Mae ymagwedd goruchwyliaeth sy'n ystyriol o drawma yn meithrin dealltwriaeth o effeithiau gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol posib trawma a straen cronnus, ac ymagweddau gwahanol at ragweld ac ymateb i'r rhain. Mae hyn yn gwella sgiliau a galluedd ar draws y gweithlu er mwyn adnabod ymatebion i drawma - yn y staff eu hunain ac mewn pobl eraill - ac mae'n galluogi mynediad cynnar at strategaethau ymdopi, adnoddau a chymorth pellach pan fydd ei angen. Mae hefyd yn cefnogi staff yn eu gwaith gan gynnig gofal ac ymyriadau sy'n ystyriol o drawma i'r rhai ar brawf.

Mae diogelwch seicolegol yn ganolog i'r model hwn. Mae goruchwyliaeth effeithiol yn meithrin amgylchedd sy'n cynnwys ffiniau clir, parch, natur ragweladwy ac agored. Mae lleihau ffynonellau o gywilydd, bygythiad neu farn ganfyddedig yn helpu staff i drafod heriau heb fod ofn wynebu canlyniadau negyddol. Mae diogelwch o'r fath yn cefnogi lles emosiynol ond hefyd ddysgu proffesiynol a gwydnwch.

Yn olaf, mae goruchwyliaeth sy'n ystyriol o drawma'n cydnabod natur berthynol gwaith prawf. Gall cydweithrediad tîm, dialog fyfyriol a chydnabod cynnydd a llwyddiant gyfrannu at ddiwylliant lle gall staff deimlo bod eu gwaith yn ystyrlon, yn cyfoethogi ac yn gynaliadwy er gwaethaf y galwadau, yr heriau a'r straen sy'n deillio o weithio yn y gwasanaeth prawf.

**Basic factors for providing trauma informed supervision and reflective practice**

| | |
|---|---|
| Trauma informed context | • Trauma informed organisation<br>• Attention to staff selection, training, development and review<br>• Appropriate resourcing (skill mix and competencies) |
| Supervision/RP competence | • Knowledge and skills in staff supervision / RP<br>• Attention to supervisory alliance and formative, normative and restorative functions<br>• Knowledge and skills in group process (for group delivery) |
| Proactive trauma containment | • Fostering physical, emotional and psychological safety<br>• Attending to boundaries<br>• Reducing potential sources of threat, shame and (re)traumatization |
| Anticipating and addressing new- or re- traumatisation | • Preparing staff and supervisors – knowledge about trauma<br>• Competencies in recognising staff trauma, access to resources, coping strategies and support<br>• Attention to identity and role expectations |
| Attending to strengths and what works | • Examining what works with service users<br>• Recognising co-operation and effective team working<br>• Work as enriching and rewarding |

*Cyfeiriadau dethol*

Davies, J., O'Meara, A., & Broome, L. J. (2023). Goals and Plans Card Sort Task: A Psychometric Assessment Tool to Measure and Support Life Goal Pursuits in People Who've Offended. *International Journal of Forensic Mental Health*, *22*(2), 105–115. https://doi.org/10.1080/14999013.2022.2081743

Davies J, & Jones L. (2024) Trauma Informed Organisational Consultancy and Staff Supervision in Forensic Services. *International Journal of Forensic Mental Health*. 23(4):403-414. doi:10.1080/14999013.2024.2337635

## Ail-ddychmygu Prawf yn y Gymuned: cynllun 'Grand Avenues'

Yr Athro Mike Maguire (USW), Dr Sue Thomas (USW) a'r Athro Kate Williams (Prifysgol Aberystwyth)

Awdur Gohebu: Kate Williams uswkwill@gmail.com

### Cyflwyniad

Lansiwyd prosiect Grand Avenues (GA) yn wardiau Caerau a Threlái yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2021. Ei nod craidd oedd profi gwerth ac ymarferoldeb cynnal goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf ar gyfer dynion y wardiau hyn mewn lleoliadau lleol megis canolfannau cymunedol, yn hytrach nag ym mhrif swyddfeydd y Gwasanaeth Prawf yng nghanol y ddinas (Stryd Westgate), ac mewn cydweithrediad agos â sefydliadau partner yn y trydydd sector a gomisiynwyd yn yr un adeiladau. Er y cafwyd trefniadau tebyg i fenywod, mae'n anarferol - os nad yn unigryw - i'r holl ddynion, bron, ar ddedfryd gymunedol neu drwydded ar ôl rhyddhau mewn ardal benodol gael eu goruchwylio yn y ffordd hon. Ymhellach, nod y prosiect bob amser oedd bod yn fwy na 'gwasanaeth prawf yn y gymuned' yn unig. I ddechrau, dylanwadwyd yn helaeth arno gan syniadau o'r maes datblygu cymunedol, gan gysylltu'r nod o 'ailintegreiddio' troseddwyr unigol â gwella diogelwch a meithrin galluedd yn y gymuned yn gyffredinol. Byddai hyn yn golygu annog dynion ar brawf i ymgysylltu â phreswylwyr lleol eraill mewn gweithgareddau rhag-gymdeithasol, er enghraifft drwy fynd i'r lleoliad y tu allan i'w hapwyntiadau i gymdeithasu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a drefnwyd megis garddio, cerdded neu chwaraeon. Byddai hefyd yn cynnwys mwy o waith gyda'u teuluoedd yn hytrach na chyda'r unigolyn ar ei ben ei hun.

Bwriedir i GA fod yn brosiect hirdymor, a bydd yn cael ei werthuso dros gyfnod estynedig. Mae ei syniadau a'i arferion wedi datblygu'n ailadroddol mewn ymateb i brofiad, ac mae eisoes wedi cael sawl newid o ran lleoliad a phartneriaid craidd. Bydd y papur brîff hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gwerthusiad hyd yn hyn, gan amlygu i ba raddau y mae'r weledigaeth gychwynnol wedi cael ei gwireddu a rhoi blas, yn seiliedig ar gyfweliadau ac arsylwi mynych, ar brofiad y swyddogion prawf a'r dynion ar brawf o'r prosiect.

### Y weledigaeth a'r realiti

Dylid nodi'n gyntaf na wnaethom ganfod braidd dim cynnydd yn elfen fwyaf uchelgeisiol y cynllun, i gynnwys swyddogion prawf mewn ymdrechion i hyrwyddo datblygiad cymunedol. Hefyd, er ymddengys y bu ychydig o gynnydd mewn ymweliadau cartref, mae'r nod o ehangu'r gwaith yn sylweddol gyda theuluoedd heb ei gyflawni eto. Serch hynny, sylwyd ar nifer o newidiadau pwysig mewn agweddau ar ymarfer prawf, a chroesawyd y rhan fwyaf o'r rhain gan y swyddogion prawf a'r dynion dan oruchwyliaeth.

Roedd bron yr holl ddynion ar y cynllun yn ffafrio'r trefniadau adrodd a goruchwyliaeth lleol yn hytrach na'r rhai a brofwyd yng nghanol y ddinas, Stryd Westgate. Roedd hyn yn haws o ran cerdded i lawr y ffordd yn hytrach na gorfod dal y bws i Stryd Westgate, ond nid dyna'r unig reswm; roedd yr awyrgylch hefyd yn fwy cyffyrddus a hamddenol (gan gynnwys cael eu croesawu a chael cynnig lluniaeth gan staff y trydydd sector neu fentoriaid cyfoedion). Roedd staff ar gael yn rheolaidd o'r sefydliadau partner a oedd wedi'u lleoli yno neu asiantaethau gwasanaeth a oedd yn ymweld i helpu gyda phroblemau ymarferol a chyfleoedd i ymgysylltu â'r swyddogion prawf yn anffurfiol (e.e. dros baned o de) y tu allan i'w hapwyntiadau.

Dywedodd llawer o'r dynion ar brawf a'r swyddogion prawf y cyfwelwyd â nhw eu bod wedi ffurfio perthnasoedd agosach a mwy ymddiriedus nag yn y gorffennol. Er enghraifft:

> 'Dwi'n edrych ymlaen at ddod a siarad â [swyddog prawf]'. (POP 8)
>
> 'Dyma'r gorau y mae'r gwasanaeth Prawf erioed wedi gweithio i fi, yn bendant'. (POP 14)
>
> 'Yn rhyfedd, y gwasanaeth Prawf yw'r peth gorau sydd wedi digwydd i fi... Rwy'n teimlo fy mod wedi cael mwy o gyfle, ac wedi tyfu'n fwy fel person drwy ddod yma'. (POP8)
>
> 'I fi, mae gweld y dynion sydd wedi cyrraedd y pwynt lle gallant rannu a chael trafodaethau dwfn wir yn bwerus a dwi'n credu bod hynny'n gwneud byd o wahaniaeth iddyn nhw'. (PO 6)

Nodwyd hefyd gan y swyddogion prawf, o dan amgylchiadau arferol, y gall newid swyddog goruchwylio rwystro meithrin perthynas, ond ar GA roedd y dynion yn cwrdd yn aml â'r holl swyddogion prawf yno ac yn dod i'w hadnabod, felly roedd newidiadau o'r fath yn llai o straen ac roedd cysylltiadau'n cael eu cynnal:

> 'Mae'n llai trawmatig iddyn nhw pan...rydych yn symud oddi wrtha i i (swyddog prawf arall) rydych chi wedi'i weld drwy'r amser'. (SP 2)

Roedd y swyddogion prawf yn cytuno'n gyffredinol bod nifer yr adegau pan oedd rhaid iddynt gychwyn ar achosion torri amodau wedi gostwng yn sylweddol - yn rhannol oherwydd eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o ddisgresiwn na mewn swyddfa, ond yn bennaf oherwydd bod cydymffurfiaeth y dynion yn well ar GA:

> 'Felly, rwy'n meddwl bod pobl ar brawf yn cydymffurfio'n well yma ac rwy'n meddwl eu bod nhw'n cael mwy o fudd o'r gwasanaeth prawf. ...mwy o gynnydd, mwy o sgiliau, mwy o fuddion na'r...ganolfan adrodd ganolog. Dwi'n meddwl bod hynny'n bwysig.' (SP 6)
>
> '[Yn GA] Ni i gyd wedi bod yn y sefyllfa o ddweud, oce dyw e ddim wedi dod heddiw. Gadewch i ni roi tan ddiwedd yr wythnos iddo. ... Ac rwy'n meddwl bod lefelau cyfranogiad...wedi gwella oherwydd hynny'. (SP 2)

Drwy gydleoli'r gwasanaeth Prawf gyda sefydliadau'r trydydd sector lleol a phresenoldeb rheolaidd darparwyr gwasanaethau eraill, gallwn gynnig apwyntiadau a datrys problemau o ran tai, cyflogaeth etc yn gyflymach:

> 'Yr hyn rwy'n ei ddweud yw, y peth da am y lle hwn..yw bod popeth yn yr un adeilad...dwi'n gallu dod yma a gweld rhywun yn syth...a dwi'n teimlo bod pethau'n cael eu gwneud yn gynt yma gan fod pawb gyda'i gilydd'. (POP 2)

> 'Er fy mod wedi bod yn y system iechyd meddwl, doeddwn i ddim yn gallu cael sesiynau cwnsela drwy hynny, ond rwy'n gallu yma'. (POP 7)

> ‘Gwnaeth [gweithiwr cymorth] drefnu budd-dal salwch i mi …. a bellach dwi wedi cael fy PIP etc. Does dim rheswm i mi droseddu'. (POP 11)

Nodwyd bod gwreiddio GA yn y gymuned leol a'r anogaeth i'r dynion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol wedi gwella cyfleoedd cyn-garcharorion yn sylweddol, yn enwedig wrth gael eu hailintegreiddio i agweddau arferol ar fywyd cymunedol:

> ‘Yn Westgate Street byddet ti’n …. gweld rhywun yn sgwrsio â rhywun yn yr ystafell aros ac ...yn gyffredinol, rwyt ti’n clywed, "Roeddwn i’n rhannu cell gyda fe yn y Parc," rhywbeth felly. Ond (yma), rwyt ti'n clywed, 'Roeddwn i yn yr ysgol da fe. Rwy wedi ei adnabod ers yn ifanc". (SP 2)

> 'Mae da fi'r sefydliad hwn i droi ato, a'r sefydliad arall. Mae da fi'r person yma; Mae da fi'r person arall hwnnw. Mae sawl llwybr gwahanol i'w droedio'. (POP 1)

> 'Doeddwn i ddim yn gadael y tŷ, doeddwn i ddim yn gwneud dim, ond rwy'n rhan o grŵp y dynion ar ddydd Gwener. Felly mae'r lle ma wedi fy helpu'n fawr. Doeddwn i ddim eisiau cysylltu â phobl; Roeddwn i eisiau bod ar fy mhen fy hun... Pryderus iawn. Rwy ar dabledi amdano. Ond mae hynny'n dechrau gwella nawr'. (POP 3)

> 'Ie, rhan fach iawn yw'r gwasanaeth prawf ohono. Ond y rhan fwyaf o hyn yw bod yn rhan o'r gymuned, ac rydych chi'n teimlo'n rhan o'r gymuned...ac os ydych chi'n gwneud rhywbeth buddiol fel gwirfoddoli, mae hynny'n gwneud ichi deimlo'n dda hefyd'. (POP 1)

Fel y dangosir uchod, roedd sylwadau gan y rhai hynny a gyfwelwyd â nhw yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y cynllun, ond roedd ymatebion negyddol a rhai problemau sefydliadol anodd hefyd a greodd heriau i'r rhai hynny sy'n rheoli'r prosiect. Nododd Swyddogion Prawf nad oedd pawb o dan oruchwyliaeth yn ymateb yn well i GA. Roedd rhai yn parhau i fod yn anodd gweithio gyda nhw a rhai'n methu manteisio ar wasanaethau. Dylid pwysleisio hefyd, er bod mynediad at wasanaethau yn well nag o dan oruchwyliaeth Prawf 'arferol', roedd rhai problemau hirsefydlog mor anodd ag erioed i'w datrys. Er enghraifft:

> 'Does dim llwybr hud i gael tŷ i rywun. Rydw i yn y ciw yn yr un ffordd ag y maen nhw yn y ciw ar y ffôn, a phethau. ... dyw'r pŵer i wneud y pethau hyn ddim yn bodoli. … yn hytrach na, "Bydda i'n trefnu fflat i chi." Mae'n "rydyn ni'n mynd i edrych ar y cyfleoedd a'ch cael chi yn y lle gorau i gael un." (SP 1)

Yn olaf, mae'n bwysig peidio â thanamcangyfrif yr heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i adeiladau addas a sefydlu a gweithredu prosiect cymhleth gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed ac weithiau'n anrhagweladwy, yn ddarostyngedig i rwymedigaethau statudol i weithredu dedfrydau llys ac i asesu a rheoli risgiau i staff a'r cyhoedd, ar yr un pryd â gweithio gyda sefydliadau partner a allai fod â dealltwriaeth gyfyngedig o wasanaethau Prawf a'u rhwymedigaethau. Fel y nodwyd yn gynharach, gwnaeth y prosiect symud adeilad a chomisiynu gwahanol bartneriaid sawl gwaith, weithiau mewn ymateb i wahaniaethau barn am ideoleg, am reolau (yn enwedig ynglŷn â risgiau) sy'n llywodraethu sut roedd y lleoliad yn cael ei weithredu, neu am sut i ymateb i broblem benodol.

**Casgliad**

Mae GA bob amser wedi wynebu'r her o gyflwyno strategaethau a safonau cenedlaethol mewn gwasanaeth lleol lled-ymreolaethol sy'n gorfod cymryd llawer o benderfyniadau strategol, comisiynu a gweithredol mewn ymateb i amgylchiadau lleol penodol, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth agos ag amrywiaeth o sefydliadau lleol. Mae ein gwerthusiad yn dangos ei fod hyd yn hyn wedi ymateb i'r her yn dda. Mae wedi darparu goruchwyliaeth Prawf mewn amgylchiadau mwy hamddenol, gan alluogi ymgysylltu'n ddyfnach â llawer o'r dynion, datrys llawer o broblemau yn gyflymach, a mwy o ymgysylltiad â'r gymuned leol. Mae hefyd wedi ymdrin â phroblemau yn fedrus pan fyddant yn codi. Mae hyn yn tanlinellu ein casgliad, os caiff y prosiect ei 'ailadrodd' mewn mannau eraill, y bydd gwersi a ddysgwyd o Gaerau-Trelái yn amhrisiadwy, ond y byddai'n gamgymeriad darparu 'glasbrint' manwl i'w ddilyn: mae pob ardal leol yn wahanol, fel y mae'r sefydliadau lleol a'r adeiladau cymunedol sydd ar gael. Wrth ddilyn nodau ac egwyddorion cyffredinol, bydd yn rhaid i bob 'GA' newydd ymateb yn greadigol i'r amgylchiadau penodol y mae'n eu hwynebu. Hefyd ceir cyfle i gael mwy o gynnydd ar y ddwy agwedd ar y cysyniad gwreiddiol o GA sydd heb eu datblygu eto: ffocws ar ddatblygu cymunedol, a mwy o waith gyda theuluoedd.

## Gwaith y gwasanaeth prawf yn Iwerddon fel gwaith cymdeithasol

Vivian Geiran, Dirprwy Athro Cynorthwyol, Yr Ysgol Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol, Coleg y Drindod, Dulyn a Chyn-gyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Iwerddon

vgeiran@gmail.com

Prynhawn da, annwyl gydweithwyr, a chyfeillion. Mae'n fraint siarad yn y symposiwm hwn ar ddyfodol lleol y gwasanaeth prawf yng Nghymru — cenedl sydd ag ymdeimlad cryf o gymuned, hunaniaeth a chyfiawnder cymdeithasol, ac un sy'n mynnu ei llais unigryw ei hun yn barhaus mewn tirwedd cyfiawnder cymhleth. Mae hefyd yn wych bod yma i ddathlu ymddeoliad yr Athro Peter Raynor, ac ar ddiwrnod pan fydd tîm rygbi Cymru yn Nulyn, fy nhref enedigol fy hun, i wynebu Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Mae cyrhaeddiad hir Peter Raynor a'i ddylanwad parhaol, llawn effaith ym maes prawf a chyfiawnder cymunedol yn hynod arwyddocaol - yn Iwerddon gymaint ag yn unrhyw le arall. Cwrddais â Peter am y tro cyntaf ym 1991 neu tua'r adeg honno pan ddaeth i Ddulyn fel gwestai i'n Gwasanaeth Prawf a Lles ar y pryd, i gyflwyno i grŵp mawr o Swyddogion Prawf, gan gynnwys finnau, ar ddatblygiadau What Works a goblygiadau RNR ar gyfer y gwasanaeth prawf yn Iwerddon. Gwnaeth y gweithdy hwnnw roi gwasanaethau prawf Iwerddon ar lwybr ymarfer sydd wedi parhau i esblygu ers hynny.

Mewn cyd-destun o ystyried beth gallai "dyfodol lleol" ei olygu mewn gwirionedd i wasanaethau prawf, yng Nghymru ac yn ehangach yn yr ynysoedd hyn, rwyf am fyfyrio ar ddau beth:

Yn gyntaf, pa ddysgu a geir o bosibl o brofiad y gwasanaethau prawf yn Iwerddon; ac yn ail, pam mae'r cysylltiad parhaol rhwng gwasanaethau prawf a gwaith cymdeithasol yn dal i fod yn bwysig - efallai nawr yn fwy nag erioed.

### Ystyr "lleol" mewn cyd-destun Cymreig

Efallai nid fy lle i yw siarad am ddyfodol gwasanaethau prawf yng Nghymru, ac eto mae'n ymddangos na allwn osgoi cydnabod y cyd-destun strwythurol y mae'n rhan ohono, gan gynnwys tensiynau nad ydynt yn gyfansoddiadol yn unig; ond yn ymarferol ac yn deillio o brofiad. Fel yr wyf yn ei ddeall, mae'r alwad am fwy o aliniad rhwng gwasanaethau prawf a gwasanaethau datganoledig wedi'i harchwilio yng ngwaith y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Rwy'n deall hefyd fod sgwrs genedlaethol bwysig yn parhau: bod yn rhaid i bolisi cyfiawnder, er mwyn bod yn effeithiol, gysylltu'n ystyrlon â'r systemau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar fywydau pobl.

Ac mae hynny'n dod â mi at wraidd hunaniaeth gwasanaethau prawf. Mae gwasanaethau prawf yn fwy na swyddogaeth y system cyfiawnder troseddol. Maen

nhw'n bont - rhwng llysoedd a chymunedau, rhwng atebolrwydd a chyfle, rhwng niwed a gobaith.

Wrth ystyried "dyfodol lleol," mae'n rhaid i ni ofyn:

- Sut gallai dyluniad gwasanaethau prawf adlewyrchu cymunedau lleol?
- Sut gellir seilio partneriaethau gyda gwasanaethau tai, gwasanaethau iechyd, ac awdurdodau lleol ar berthnasoedd yn hytrach na rhyngweithredu yn unig?
- Sut gellir datblygu gwasanaethau effeithiol sy'n adlewyrchu cryfderau iaith, diwylliant a chymuned?

Er mwyn bod yn ystyrlon, rhaid i leoliaeth fynd y tu hwnt i ddaearyddiaeth weinyddol. Rhaid iddi olygu agosrwydd at bobl - ac ymateb i le.

**Myfyrdodau o Iwerddon: Setliad Cyfansoddiadol Gwahanol**

Mae Gwasanaeth Prawf Iwerddon yn rhan o'n Hadran Gyfiawnder. Mae'n wasanaeth cenedlaethol, a ddarperir yn lleol. Mae ei hunaniaeth wedi'i llywio, yn hanesyddol ac yn athronyddol, gan ei wreiddiau mewn gwaith cymdeithasol a'i gysylltiadau ar draws awdurdodaethau yr ynysoedd sy'n gyfagos i ni. Nid yw'r dreftadaeth honno wedi diflannu - mae'n parhau i ddylanwadu ar recriwtio, hyfforddiant, ac ethos proffesiynol.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch gwasanaethau prawf yn yr ynysoedd hyn - Deddf Prawf Troseddwyr 1907, yn dal i fod yn weithredol yn Iwerddon. Er bod ein deddfwrfa wedi ychwanegu at y ddeddfwriaeth ynghylch gwasanaethau prawf, gan gyflwyno Gwasanaeth Cymunedol ym 1983, deddfwriaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn 2001 a chyfreithiau amrywiol sy'n darparu ar gyfer goruchwylio nifer cynyddol o bobl sy'n gadael y ddalfa ar ôl eu rhyddhau, mae deddfwriaeth wreiddiol 1907 yn parhau i atgoffa'n gyson am yr hanes a rennir â'n hawdurdodaethau cyfatebol yn y DU ac mae'n dal i fod ar waith yn gryf iawn yn Iwerddon.

Yn Iwerddon, mae swyddogion prawf yn weithwyr cymdeithasol hyfforddedig. Mae dull y gwasanaeth wedi pwysleisio'n gyson:

- Bod adsefydlu yn broses gymdeithasol
- Bod ymatal yn berthynol
- Bod goruchwylio'n ymgysylltu pwrpasol
- Bod sancsiynau cymunedol yn ddewisiadau amgen credadwy i’r ddalfa

Mae lefel o eglurder yno: mae gwasanaethau prawf yn fwy na gorfodi yn y gymuned; maen nhw'n ymyrraeth broffesiynol wedi'i gwreiddio mewn dealltwriaeth gymdeithasol. Ydyn ni'n cael popeth yn iawn yn Iwerddon? Wrth gwrs ddim.

Yr hyn sy'n drawiadol yw nad yw Iwerddon wedi osgoi heriau - nid yw wedi gwneud hynny. Fel pob system, mae'n ymdopi â phwysau rheoli risg, gofynion amddiffyn y cyhoedd, a chyfyngiadau o ran adnoddau. Yn anad dim, efallai, mae'r Gwasanaeth Prawf yn Iwerddon wedi brwydro ers o leiaf hanner canrif yn sgîl y problemau sy'n deillio o'r ffaith bod y gronfa o weithwyr cymdeithasol yn rhy fach a'r gwahanol asiantaethau sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol i gyd yn cystadlu i recriwtio o'r gronfa fach honno.

Am lawer rhy hir, mae Gwasanaeth Prawf Iwerddon wedi gweithredu 'ateb Gwyddelig i broblem Wyddelig': Rydym bob amser yn dweud bod gennym sefydliad ac arferion sy'n seiliedig ar waith cymdeithasol; a'n bod ni am gyflogi Gweithwyr Cymdeithasol fel Swyddogion Prawf. Tra roeddwn yn Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Prawf, llwyddais i gyflwyno gofyniad bod pob Swyddog Prawf newydd yn Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig. Yn anffodus, mae hynny wedi cael ei newid eto ers i mi ymddeol. Nid yw'n ofyniad mwyach, ond yn ddymunol, ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Rwyf wedi ysgrifennu am hyn i gyd ar sawl achlysur, yn fwyaf diweddar mewn erthygl a gyhoeddwyd yn y *Probation Journal* fis Medi diwethaf.

Ond yr hyn sy'n parhau drwy'r cyfan yw'r angor cysyniadol: gwasanaethau prawf fel gwaith cymdeithasol ym myd cyfiawnder. Mae'r cysylltiad parhaus hwnnw yn cynnig pwynt myfyrio pwysig i Iwerddon, ac efallai i Gymru — ac yn wir awdurdodaethau eraill.

**Gwasanaethau Prawf a Gwaith Cymdeithasol: Cysylltiad Parhaol**

Ar draws Cymru a Lloegr, mae gwasanaethau prawf wedi cael eu hailstrwythuro'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Diwygio, rhannu'n ddarnau, ailuno — mae pob un wedi gadael ei farc ar hunaniaeth broffesiynol. Yn y broses, mae'n ymddangos i mi fod rhywbeth sylfaenol weithiau wedi teimlo mewn perygl: yr ymdeimlad o brawf fel proffesiwn gwasanaeth dynol.

Mae'r cysylltiad gwaith cymdeithasol yn bwysig am sawl rheswm:

1. *Mae'n gwreiddio ymarfer mewn cyd-destun*

Anaml y diffinnir pobl sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau prawf gan un drosedd. Yn rhy aml, trawma, tlodi, heriau iechyd meddwl, dibyniaeth, allgáu, ac anghydraddoldeb sy'n dylanwadu ar eu bywydau. Mae hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn mynnu gweld y person cyfan yn ei amgylchedd.

2. *Mae'n pwysleisio perthnasoedd*

Mae ymchwil i ymatal yn dweud wrthym fod newid yn berthynol. Ymddiriedaeth, cyfreithlondeb, cysondeb - nid yw'r rhain yn gysyniadau meddal. Maent yn fecanweithiau craidd o ran newid.

3. *Mae'n cydbwyso gofal a rheolaeth*

Mae'r gwasanaeth prawf bob amser wedi gweithredu yn y gofod hwnnw. Nid yw gwaith cymdeithasol yn gwadu risg na niwed; mae'n fframio ymyrraeth fel rhywbeth pwrpasol, moesegol a chymesur.

Mae profiad Iwerddon yn dangos nad yw cadw hunaniaeth gwaith cymdeithasol broffesiynol yn gwanhau amddiffyn y cyhoedd. Mae'n atgyfnerthu cyfreithlondeb ac yn ogystal mae'n diogelu'r cyhoedd a'r rhai hynny sy'n cael eu dal yn y system cyfiawnder troseddol.

**Y Dyfodol: Beth dylem ni ei ddiogelu?**

Wrth i Gymru ystyried ei dyfodol lleol — boed yn y strwythurau presennol neu mewn unrhyw drefniant datganoledig yn y dyfodol — rwy'n awgrymu bod rhai egwyddorion sy'n werth eu hystyried ac efallai eu diogelu. Yn gyntaf, bod gwasanaethau prawf yn parhau i fod wedi'u hymgorffori mewn cymunedau. Nid yw cydleoli â gwasanaethau eraill, cysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol, ac ymarfer diwylliannol cymwys yn ychwanegiadau dewisol.

Yn ail, mae hunaniaeth broffesiynol yn bwysig. P'un ai drwy gymhwyster gwaith cymdeithasol neu fframweithiau proffesiynol cyfatebol, dylem amddiffyn gwasanaethau prawf fel ymarfer medrus a myfyriol - nid eu bychanu i fod yn wyliadwriaeth syml neu brosesu achos technegol.

Yn drydydd, rhaid cael partneriaeth go iawn. Nid yw partneriaid ym meysydd tai, iechyd a'r trydydd sector ac eraill yn ymylol - maent yn ganolog i leihau aildroseddu a chefnogi ymatal.

Yn bedwerydd, dylem wrthsefyll dyfodol tra rheolaethol. Mae data yn bwysig. Mae atebolrwydd a pherfformiad yn bwysig. Ond mae perthnasoedd yn newid bywydau.

**Myfyrdod Terfynol**

Mae stori gwasanaethau prawf, yng Nghymru, Iwerddon, ac mewn mannau eraill, yn hanes o addasu. O'u gwreiddiau mewn ymdrechion sy'n seiliedig ar ffydd ac ymdrechion gwirfoddol, drwy broffesiynoliaeth, drwy ddiwygio ac ailstrwythuro, mae'r cwestiwn canolog wedi parhau i fod yn rhyfeddol o gyson: Sut rydym yn dwyn pobl i gyfrif mewn ffyrdd sydd hefyd yn eu galluogi i newid?

Efallai y bydd profiad Iwerddon yn ein hatgoffa nad oes angen i'r ateb gefnu ar wreiddiau gwaith cymdeithasol er mwyn bodloni gofynion modern. Ac mae Cymru, gyda'i hethos gwasanaeth cyhoeddus cryf a'i hymrwymiad i bartneriaeth, wedi'i lleoli'n annisgwyl i ddylanwadu ar fodel gwasanaeth prawf sy'n:

- Lleol

- Yn hyderus yn broffesiynol
- Yn briodol yn gymdeithasol
- Ac yn barod ar gyfer y dyfodol

Os yw dyfodol y gwasanaeth prawf yng Nghymru am fod yn lleol, yna mae angen iddo fod yn rhan o gymunedau Cymru a pherthyn iddynt. Ac os ydym am ddysgu unrhyw beth gan Iwerddon, gadewch iddo fod yn hyn: Mae'r gwasanaeth prawf ar ei gryfaf pan mae'n cofio pwy ydyw.

*Cyfeiriadau*

Geiran, V. (2025). ‘Our people could more accurately be described as social workers’: Professional identity, practice standards and regulation in Irish probation. Probation Journal, 72(4), 447-464. https://doi.org/10.1177/02645505251371031

## Safbwyntiau o'r maes - myfyrdodau o Napo Cymru

Rachael Mages, Napo Cymru

Prynhawn da, fy enw i yw Rachael Mages, ac rydw i wedi bod yn Swyddog Prawf cymwysedig am dros 21 o flynyddoedd ac ar hyn o bryd rwy'n gweithio yn Nyfed Powys. Mae Lee Hoyles a Lauren Scott, y ddau'n Swyddogion Prawf yn ne Cymru yn gweithio gyda fi, a Su McConnel, sy'n parhau i'n cefnogi yn NAPO Cymru hyd yn oed ar ôl ymddeol.

Rydym yma heddiw i ddathlu'r Athro Peter Raynor, nid yn unig ei ymddeoliad, ond gwaith ei fywyd, sydd wedi llywio sut mae'r gwasanaeth prawf yn deall ei hun. Fe wnes i gwrdd â'r Athro Raynor yn ystod fy nyddiau cynnar fel Swyddog Prawf dan hyfforddiant ac rydw i eisiau dechrau drwy enwi un o'i gyfraniadau pwysicaf i'r maes: “the evidence that without a skilled, professional relationship at the heart of probation supervision, everything else, every programme, every tool, every intervention is likely to fail.”

Nid oedd yr Athro Raynor byth yn amwys am hynny. Dangosodd ei ymchwil drosodd a throsodd bod ymarfer effeithiol yn y bôn yn 'ddynol'. Mae'n berthynol, mae'n fedrus, ac mae'n cymryd amser, disgresiwn proffesiynol, ac amodau sefydliadol sy'n galluogi ymarferwyr i feithrin ffydd.

Mae'r gwir hwnnw yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd pan gafodd ei gyhoeddi gan yr Athro Raynor am y tro cyntaf, efallai hyd yn oed yn fwy perthnasol oherwydd bod yr amgylchoedd rydym bellach yn gweithio ynddynt, yn aml yn gwneud y berthynas honno y peth anoddaf i'w hamddiffyn a dyma pam fod y panel hwn yn bwysig. Mae gennym yr holl academyddion, ymarferwyr, myfyrwyr a phartneriaid y sector mewn un ystafell. Os ydym am siarad yn onest am ddyfodol y gwasanaeth prawf yng Nghymru, dyma'r foment.

Felly gadewch i mi rannu ychydig o realiti'r rheng flaen. Mae pobl yn parhau i ymuno â'r gwasanaeth prawf, gyda'r un gwerthoedd rydyn ni'n eu cydnabod, er mwyn gwneud gwahaniaeth, i weithio gyda phobl, i helpu unigolion i wneud eu bywydau'n fwy diogel ac yn fwy sefydlog. Ond.... maen nhw'n dod i wasanaeth gyda llwythau gwaith anghynaliadwy, tâl nad yw'n amlygu lefel y cyfrifoldeb proffesiynol, a buddsoddiad cyfyngedig iawn o ran hyfforddiant neu ddatblygu ymarfer, ac mae'r pwysau hyn yn diystyru'r union beth mae ymchwil yr Athro Raynor yn nodi yw maen clo goruchwyliaeth effeithiol, sef y "berthynas broffesiynol, fedrus.”

Nid yw'n syndod felly bod recriwtio a chadw staff mewn argyfwng. Nid yw gwerthoedd staff newydd wedi newid, ond y cyd-destun maen nhw'n cael eu gosod

ynddo sydd wedi newid, ac felly i'n cyn-gydweithwyr yn yr ystafell, Su, Mark, Ella, yr Athro Raynor ei hun, mae'r gwasanaeth wedi newid gymaint mewn rhai ardaloedd, efallai na fyddwch chi'n ei adnabod.

Felly cwestiwn i bawb yma "Ydi'r sylfaen dystiolaeth roeddech chi wedi'i hadeiladu'n cael ei defnyddio o hyd? Ac os nad yw'n cael ei defnyddio, beth sydd angen newid er mwyn iddi fod yn bwysig unwaith eto?"

Mae hefyd cyd-destun Cymreig ehangach. Mae gennym bartneriaid sector gwirfoddol arbennig a phan fydd gwasanaethau wedi'u gwreiddio'n lleol, yn y gymuned, ac nid dan reolaeth contractau corfforedig, maen nhw wir yn trawsnewid bywydau. Ond ni all hyd yn oed y gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu orau wneud yn iawn am wacáu rôl graidd y Swyddog Prawf.

Ac os ydym eisiau'r math o ymarfer roedd yr Athro Raynor yn eirioli drosto, sef ymarfer perthynol, medrus a myfyriol, yna mae angen sefydliad sy'n ei alluogi i anadlu.

Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn pobl. Mae'n golygu tâl sy’n adlewyrchu difrifoldeb y gwaith. Mae'n golygu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol nad yw'n diflannu'r foment mae llwythau gwaith yn cynyddu. Mae'n golygu cydweithredu go iawn â sefydliadau yng Nghymru sy'n adnabod eu cymunedau, gyda Chymru Ddiogelach yn enghraifft berffaith, ac mae'n golygu rhoi gofod i ymarferwyr ar gyfer myfyrio beirniadol. Mae gwaith diweddar yr arolygiaeth ar Ffactorau Dynol yn nodyn atgoffa bod diwylliant yn bwysig,  os rydym eisiau gwneud penderfyniadau gwell, ymarfer mwy diogel, llai o duedd, a thimau cryfach, yna mae angen i ni adeiladu systemau o gwmpas dysgu, nid ofn.

Yn olaf, nodyn o’r tu allan i Gymru a Lloegr. Mae Brian Heath yn Jersey wedi profi’n arwrol y gall y gwasanaeth prawf gael ei amddiffyn rhag canoli. Mae gan Jersey Swyddogion Prawf sy’n dal i fod yn "weithwyr cymdeithasol i'r llysoedd", cyfraddau dalfa is, gwell canlyniadau ail-euogfarnu, a hunaniaeth sydd wedi'i gwreiddio mewn gwaith perthynol, medrus. Mae'n dangos yr hyn sy'n bosib pan na fydd yr awdurdodaeth yn rhoi'r gorau i’r berthynas broffesiynol fel sylfaen i amddiffyn y cyhoedd.

Felly, fy nghwestiwn agoriadol i'n panel ac i bob un ohonom yw hyn,

Os yw'r dystiolaeth yn glir, ac mae wedi bod ers degawdau, beth sydd angen i ni newid, yn sefydliadol, yn wleidyddol, yn ddiwylliannol, i greu amgylchedd prawf lle nad yw ymarfer medrus, perthynol yn  eithriad rydym yn brwydro amdano, ond yn hytrach yn norm sy’n ddisgwyliedig?"

## Safbwyntiau o'r maes - myfyrdodau o Gymru Ddiogelach

Simon Borja, Cymru Ddiogelach

Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rôl hanfodol sy'n cael ei chydnabod fwyfwy wrth gyflwyno cymorth effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer pobl sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae gwaith Cymru Ddiogelach, gyda'r Gwasanaeth Prawf yn dangos sut gall sefydliadau annibynnol, yn y gymuned gyflwyno gwasanaethau arbenigol, ymatebol sy'n gallu ategu'r ddarpariaeth statudol a helpu unigolion i gael dyfodol mwy diogel a sefydlog.

Roedd cymryd rhan yn nigwyddiad Local Futures Probation yn ddiweddar yn gyfle i amlygu ein gwaith cydweithredol, gan gynnwys Canolfan Menywod Castle House a'n Hyb i Oedolion Ifanc. Mae'r gwasanaethau hyn yn arddangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd partneriaid gwirfoddol a statudol yn rhannu ymrwymiad i ymarfer perthynol, cymorth cyfannol, ac ymagweddau ymatebol sy'n cael eu cyfeirio gan drawma, rhywedd ac oed. Mae gweithio yn y gymuned yn ein galluogi i roi cymorth hyblyg a hygyrch.

Ochr yn ochr â hyn, daeth Cynhadledd Flynyddol Cyfiawnder Cymdeithasol Cymru, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Clinks ac Inside Out, â'r trydydd sector ac asiantaethau statudol ynghyd i archwilio sut rydym yn llywio tirwedd cyfiawnder cymunedol mwy effeithiol a theg ar y cyd yng Nghymru. Roedd trafodaethau ar draws y gynhadledd wedi cadarnhau gwerth canolog arweinyddiaeth y sector gwirfoddol: ein hagosatrwydd at gymunedau, ein hannibyniaeth, a'n gallu i arloesi ac eirioli dros y rhai hynny sydd â phrofiad go iawn.

## Y gwasanaeth prawf, partneriaeth leol a'r gymuned: Myfyrdodau'r prynhawn

Brian Heath MBE ac Ella Rabaiotti

Ar ôl y cyfraniadau academaidd o'r symposiwm, cafodd y safbwyntiau o'r maes eu croesawu'n fawr. Roedd yr araith gan Rachael Mages, ar ran Napo Cymru'n pwysleisio cyfraniadau'r Athro Peter Raynor: mai calon gwasanaeth prawf effeithiol yw perthynas fedrus, ddynol a llawn ffydd rhwng ymarferydd a chleient. Amlygodd Rachael os na fydd sefydliadau'n creu'r amodau i'r berthynas honno ffynnu, ni fydd unrhyw offeryn, rhaglen nac ymyrraeth yn llwyddo.

Cafodd cyfraniad Napo ei ddilyn gan drosolwg o waith Cymru Ddiogelach, gan y cyfarwyddwr, Bernie-Bown Thompson. Mae Cymru Ddiogelach yn sefydliad sector gwirfoddol, a'i genhadaeth yw cefnogi, diogelu a grymuso grwpiau sydd yn aml yn anweladwy mewn cymdeithas - p'un a yw hynny'n ddioddefwyr trosedd neu ecsbloetiaeth, neu bobl sydd wedi troseddu (ac fel y gwyddwn, gall unigolion fod yn y ddau gategori). Amlygodd Bernie ei waith gyda menywod sydd wedi troseddu yn

ogystal ag oedolion ifanc, gan gynnig gwasanaeth prawf yn y gymuned ymhell i ffwrdd o'r amgylchedd swyddfa prawf ffurfiol yng Nghaerdydd.

Arweiniodd panel a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Napo a Chymru Ddiogelach drafodaethau gyda chynadleddwyr. Wedi'i gadeirio gan Gyn-brif Swyddog Prawf Jersey, Mr Brian Heath MBE, cynigodd dri myfyrdod o'r sesiwn.

Yn gyntaf, nododd bryderon o ran disgrifio effaith llechwraidd a threiddiol ar ddiwylliant ymagwedd ticio bocs dangosydd perfformiad o'r brig i lawr, sy'n gallu atal arloesedd a chwilfrydedd proffesiynol.

Yn ail, myfyriodd ar sut gall comisiynu gwasanaethau, yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth, atal asiantaethau rhag manteisio ar eu cryfderau.

Yn gysylltiedig â hyn oedd y trydydd pwynt: yr her o gyllido, gan gynnwys yr anawsterau a wynebir gan elusennau lleol wrth gystadlu yn erbyn sefydliadau cenedlaethol mawr mewn prosesau cyflwyno cais. Ymddengys fod rhai elusennau bach wedi dechrau credu, yn wir neu beidio, nad yw'n werth iddynt gyflwyno ceisiadau.

Mae'r problemau hyn yn cryfhau'r achos dros gomisiynu datganoledig yng Nghymru, yn HMPPS neu drwy bartneriaid yng Nghymru, fel yr ymchwiliwyd yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru (cafwyd cyhoeddiad am hyn yn dilyn y symposiwm - gweler y cyfeiriadau).

Mae ariannu cynaliadwy, hir dymor yn parhau'n her ar gyfer y sector gwirfoddol sy'n cefnogi pobl sydd wedi troseddu yng Nghymru, gan gynnwys y methiant i ariannu gwaith ar ôl cynnal cynlluniau peilot addawol neu lwyddiannus. Gall cyllid pontio cymdeithasol gynnig ateb posib (gweler, er enghraifft, Mazzei et al., 2025), ac mae'r ymagwedd hon eisoes wedi cael ei chymhwyso yn Jersey ar gyfer prosiect sy'n cefnogi menywod sy'n agored i niwed.

Roedd adborth pellach o'r gynhadledd yn pwysleisio'r angen am wasanaeth prawf i weithio'n agosach mewn chymunedau ac i feithrin perthnasoedd ystyrlon - gwella perthnasoedd gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau a chryfhau ymgysylltiad â phobl ar brawf a chyda chymunedau.

Roedd diddordeb mewn datblygu ymchwil bellach i'r defnydd o hybiau cymunedol, gan adeiladu ar y mewnbwn o ran hybiau cynnes, y cynllun 'Grand Avenues' a Chymru Ddiogelach. Mae gwaith cwmpasu cynnar wedi dechrau nodi hybiau cymunedol posib eraill ar gyfer y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, nodwyd bod angen cydbwyso hyn â phryderon am ddiogelwch wrth weithio mewn amgylchoedd y tu allan i'r swyddfa.

Wrth ddod â'r symposiwm i ben, roedd y trafodaethau hyn yn amlygu ymrwymiad a rennir i gryfhau ymarfer prawf yng Nghymru drwy gydweithio, ymgysylltu â'r gymuned, a ffocws newydd ar y perthnasoedd dynol sydd wrth wraidd goruchwyliaeth effeithiol - mewnwelediad sy'n cael ei hyrwyddo trwy gydol gwaith yr

Athro Peter Raynor. Roedd y myfyrdodau ar ddiwylliant, comisiynu, cyllid ac arloesedd yn amlygu'r heriau a'r cyfleoedd sylweddol sydd o'n blaenau. Yr hyn oedd fwyaf clir oedd ein huchelgais ar y cyd i greu amodau lle gall ymarferwyr prawf, partneriaid y sector gwirfoddol, ymchwilwyr a chymunedau weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llywio gan dystiolaeth, ac wedi'u gwreiddio mewn ffydd, partneriaeth ac angen lleol. Wrth i Gymru barhau i archwilio ymagweddau datganoledig, modelau ar sail y gymuned a dulliau newydd o gyflwyno gwasanaeth, roedd y symposiwm hefyd wedi amlygu cyfleoedd cyfoethog i gynnal ymchwil bellach a dysgu ar y cyd .

*Cyfeiriadau*

Irranca-Davies, H. (2026, 25 March) Written Statement: Strengthening Devolution. Welsh Government. https://www.gov.wales/written-statement-strengthening-devolution

Mazzei, M., Bellazzecca, E., Montgomery, T., & Calò, F. (2025). Social bridging finance: a new Scottish model for financing public service design and delivery? Journal of Social Policy, 1–18. doi:10.1017/S0047279425100937

**Am ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, e-bostiwch:**
**Ella Rabaiotti, Prifysgol Abertawe - e.c.rabaiotti@abertawe.ac.uk**
**PRIFYSGOL ABERTAWE (2026)**